

ECO'R WYDDFA

Rhif 144

CHWEFROR 1989

Pris 20c

HWB I WIREDU BWRIAD



Cafwyd cefnogaeth frwd gan nifer fawr o'r ardalwyr i ddigwyddiad pwysig yn Antur Waunfawr yn ddiweddar pan ddaeth Syr Geraint Evans yno i gyflwyno sic o £20,000 i'r Antur ar ran ymgyrch Telethon HTV Cymru.

Dyma ymateb Mr R Gwynn Davies, Cadeirydd Bwrdd Cyfarwyddwyr Antur Waunfawr i'r newydd fod £20,000 ar gael ar gyfer yr Antur.

Yr ydym yn hynod o falch fod Ymddiriedolwyr Telethon 88 wedi rhoi ystyriaeth mor ffafriol i gais Antur Waunfawr am arian i sefydlu cynllun partneriaeth.

Sefydlwyd Antur Waunfawr i brofi cywirdeb athroniaeth Strategaeth Cymru ar gyfer pobl â nam meddwl, sy'n datgan eu hawl i batrwm normal o fywyd fel unigolion o fewn cymdeithas a rhoi'r cyfle iddynt ddatblygu eu gallu cynhenid. Gwnaed hyn trwy sefydlu cynllun gwaith ar gyfer pobl abl ac anabl yng nghanol pentref Waunfawr.

Credwn ei bod bellach yn amser cymeryd camrau pellach fel ag i wneud bywydau ein gweithwyr yn fwy naturiol.

Yn ystod y dydd, mae'r gweithwyr sy'n anabl yn integreiddio'n rhwydd â'u cyd-weithwyr sydd heb anabledd, ac yn cael eu derbyn yn rhwydd i'r gymdeithas bentrefol yn Waunfawr. Y gwasanaeth a roddir ganddynt sydd bellach yn tynnu sylw, ac nid eu hanabledd.

Fodd bynnag, ar ddiwedd y diwrnod gwaith mae'r gweithwyr yn dychwel i'w cartrefi yn y gwanol bentrefi yn Arfon ac, yn anffodus, mae'r cyfle iddynt gymdeithasu yn fychan iawn. Credwn ei bod yn ddyletswydd arnom wneud trefniant i ofalu eu bod yn cael mwynhau eu hamser hamdden yn llawnach.

Ein bwriad yw sefydlu cronfa ariannol fydd yn ein galluogi i wneud trefniant fydd yn sicrhau y bydd gan yr oll o'r gweithwyr 'bartner' neu 'bartneres' fydd yn eu cynorthwyo i fod yn rhan weithredol o'r bywyd cymdeithasol yn yr ardaloedd lle maent yn byw.

Bydd cynllun o'r fath yn gam pwysig arall ar y llwybr i sefydlu annibyniaeth yr unigolion.

A gawn ni fynegi gobaith arall?

Megis ag y cyfoethogwyd bywyd ardal Waunfawr trwy waith pobl â nam yn y pentref, tybed a all cynllun i gymhathu pobl â nam i gymdeithas amser hamdden adfywio a chyfoethogi y gymdeithas honno?

Gydag ymateb Telethon 88 gallwn yn awr ehangu gorwelion ac ymateb i ofynion yr unigolion mewn maes nad oedd yn bosibl i ni ei drafod cyn hyn.

Cyfarwyddwr yr 'Antur', R Gwynn Davies yn derbyn sic o £20,000 oddi wrth Syr Geraint Evans, Mr Idwal Symonds sydd yn y canol.

Llun: Gerallt Llewelyn, drwy garedigrwydd HTV Cymru.

MAE'N TALU I WYLIO'R TEL

Alex Cropper o Lanrug yw'r bachgen lwcus yma sydd yng nghwmni rhai o actorion y gyfres hynod boblogaidd "C'mon Midffild" sydd newydd ddod i ben. Enillodd Alex y gystadleuaeth a drefnwyd gan S4C yn y cylchgrawn Sbec.

Rhag ofn nad ydych yn gwybod, hanes hynt a helynt tîm pêl-droed Bryncoch United yw 'C'mon Midffild'. Dim rhyfedd felly mai pêl-droed yw gwobr Alex — ond nid un, ond dwy — un i'w defnyddio a'r llall i'w chadw. Pam i'w chadw, meddech chithau. Wel, a fuasech chi yn cicio pêl a honno wedi ei llofnodi gan rai o bêl-droedwyr enwocaf Cymru? — arwyr fel Ian Rush, Mark Hughes, Alan Curtis a Joey Jones.

Yn y llun gyda Alex y mae Tecwyn, Sandra a George o



Fryncoch — neu os liciwch chi, yr actorion Bryn Fôn, Siân Wheldon a Llion Williams. Rhagor o'r stori ar dudalen 3.

PENOLARWAUN



Yn ôl rhai o bobl ddyfeisgar Penisarwaun mae yna ffordd newydd sbon o "odro" buwch. Mae'r llun yma (y llun mwyaf "cheeky" erioed a welwyd yn yr Eco) yn adrodd rhan o'r stori yn unig. Codwch ei chynffon rhwch slap fach ar ei phen ôl, a dyma chi â llond eich dwylo! Ond dyna ddigon o falu. Cyn i chwi droi i dudalen newyddion Penisarwaun am ragor o fanylion am gynllun unigryw i gasglu arian at neuadd bentref. Mwynhewch yr englyn:

"Di-ail yw'n tail, felly talwch"

-yw'n gwaedd

A'n gweddi; "Buddsoddwch!

Dewiswch sgwâr a gwariwch!

A daw ein budd o din buwch!"

Welsh Blac

CYFEILLION GARETH AM GASGLU ARIAN

At Ymchwil yr Arennau Cynhelir

GWLEDD GERDD

yn Ysgol Brynrefail,

Llanrug, Nos Wener,

Chwefror 10 am 7.30

yng nghwmni

Plant Ysgolion Cynradd

Llanrug a Llanberis

(cyfeilyddes: Mrs Ruth

Lennon Rowlands)

Côr Melbion Caernarfon;

Gwlith; Rhian Owen; Siân

Wyn Gibson; Regina Hanley;

Joseph Kelly; Delyth Medi

Jones; Manon Llwyd

Arweinydd: Mr Del Tomos

Cyfeilyddes:

Mrs Annette Bryn Parri

Llywydd: Dr Dan Hughes

Pris Mynediad £2



Braf gweld Gareth Roberts, y bachgen bach dewr o Lanrug yn gwneud cynnydd mor foddhaol ers iddo dderbyn aren newydd fis Medi diwethaf. Ef sy'n bennaf gyfrifol am greu diddordeb mewn ymchwil i'r arenau yn y fro hon ac am y cynnydd sydd mewn gweithgareddau codi arian i'r pwrpas.

ECO'R WYDDFA

**RHIF 144
CHWEFROR 1989**

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL:

Twrog Jones, Pros Kairon,
Glanfynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU:

Dafydd Whiteside Thomas, Bron-y-
Nant, Pontrhythallt, Llanrug (C'fon
3515)

GOLYGYDD NEWYDDION

PENTREFI:

Nant Roberts, Arwel, Pontrhythallt
(870760)

GOLYGYDD CHWARAEON:

Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun
(Llanberis 872407)

ECO'R IFANC:

Mrs Nan Humphreys, Pant Bryngwyn,
Tanycoed (C'fon 5668)

DYDDIADUR Y MIS:

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach,
Llanrug (Waunfawr 200)

FFOTOGRAFFWYR:

Gwyndaf Jones, 60 Glanfynnon,
Llanrug (C'fon 4669)

Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug
(C'fon 77263)

TREFNYDD HYSBYSEBION:

John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT:

Arwyn Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf,
Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL:

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST:

Mrs E Whiteside Thomas, Dolwar,
Llanrug (C'fon 4778)

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl
i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd.

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran,
(Portdinorwig 670726)

BRYNREFAIL: Miss Lowri Prys
Roberts, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Mrs Beryl Roberts,
Gerallt, Erw Wen (C'fon 3536)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (Llanberis 872275)

DEINIOLLEN: W O Williams, 6
Rhydfadog, Deiniolen (Llanberis
871259)

DINORWIG: Mr D J Thomas, 8 Maes
Eilian (870773)

LLANBERIS: Iola Sellers, 13 Dôl Elidir
(871043)

NANT PERIS: Mrs Ann Fleming,
Dolwen, 8 Nant Ffynnon

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (Llanberis 872407)

TAN-Y-COED: Miss Bethan Parry, Ael
y Bryn.

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr.

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, MAWRTH 2

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

NOS FAWRTH

CHWEFROR 21

os gwelwch yn dda

LLYTHYRAU

CYFLWYNO SIECIAU TELETHON '88

Annwyl Olygydd,

Cyflwyno Sieciau Telethon '88
Casglwyd dros £21 miliwn gan
wylwyr teledu annibynnol yn
ymgyrch Telethon '88, £628,826
o'r cyfanswm gan wylwyr HTV
Cymru. Bydd 460 o elusennau
Cymraeg yn elwa o ganlyniad.

Cyflwynir sieciau Telethon i
ddau achos da yng Ngwynedd
gan Mr Idwal Symonds,
Cadeirydd Ymddiriedolaeth
Telethon HTV Cymru, yn y
Ganolfan Gymdeithasol,
Waunfawr, ger Caernarfon,
ddydd Mawrth, Ionawr 10 am
2.15pm. Bydd Antur Waunfawr
yn derbyn siec am £20,000 a
Chyngor Gwlad Gwynedd siec
am £12,500.

Yn gywir iawn,

Mansel Jones

Dirprwy Bennaeth y Wasg

HTV Cymru

Y Ganolfan Deledu,

Croes Cwrlwys,

CAERDYDD CF5 6XJ

PENNAU BACH 1989

Annwyl Olygydd,

Beth ddigwyddodd i Gaerdydd
ym 1955? O ba wlad y daw'r
dyfeisiwr Erno Rubik? A beth yw
llêd y tâp magnetic mewn caset
fideo?

Os gallwch chi ateb y tri cwesti-
wn yna, beth am gymryd rhan yn
'Pennau Bach 1989' - gêm cwis
gwybodaeth gyffredinol Radio
Cymru?

Ry'n ni'n chwilio am berson
mwyaf peniog Cymru, ac efallai
mai chi yw'r un.

Cysylltwch yn syth â Pennau
Bach, BBC, 32 Heol Alecsandra,
Abertawe. SAI 5DT.

Geraint Davies

Cynhyrchydd

Cefnogwch ein Hysbysebwy



I weled ein crôg fasgedi - a'r grug
Sydd mor grand, a pherthi
O goed fyrdd, i wyrdd erddi
Dowch oll i'r Antur, da chwi

CANOLFAN ARDD ANTUR WAUNFAWR

Ffôn: Waunfawr 721

Am flodau gardd i harddu - a llysiau
Sy'n llesol i'r teulu
Ewch heibio i archebu
Yno lwyth planhigion lu

* GRUG
* ALPAU
* PERTHI
* LLYSIAU

OFFER CYMORTH CLYW

Annwyl Syr,

Cyflwynais fesur yn y Ty
Cyffredin i ffrwyno gwerthwyr
offer cymorth clyw yn y sector
breifat, sy'n defnyddio hysbyse-
bion camarweiniol a thechnegau
gwerthu caled i berswadio'r
trwm eu clyw i brynu offer ar
gôst aruthrol (rhwyng £350 a
£1,000). Yn aml, canfyddir nad
yw'r offer yn addas.

Mae'r RNID (Cymdeithas y
Byddar) wedi derbyn rhai can-
noedd o gwynion yn barod.
Hoffwn wybod os oes rhai o'ch
darllenwyr chwi wedi dioddef o
ganlyniad i'r math o dactegau â
ddisgrifir uchod. Os ydynt,
gofynnaf iddynt gysylltu â mi yn
Nhy'r Cyffredin, Llundain SW1A
0AA. Cedwir pob gwybodaeth yn
gyfrinachol.

Mae'r mwyafrif llethol o'r
gwerthwyr yn berffaith onest.
Bwriad y mesur yw rheoli'r crw
bach sy'n niweidio elwedd offer
clyw, ac yn achosi cymaint o bry-
der i bobl sy'n aml yn hen ac yn
ddi-gefn.

Yn gywir,

Ieuan Wyn Jones

Aelod Seneddol Ynys Môn

YSTYR "CYFLYCHWYR"

Annwyl Olygydd,

Gwelais fod Mrs Mary Lloyd
Williams yn gofyn yn ei cholofn
tybed a oedd rhywun wedi
clywed y gair "cyflychwyr". Y
mae gennyf hen eiriadur wedi ei
gyhoeddi yn 1850. Y mae'r gair
"cyflychwyr" neu "llychwyr" yn
cael ei esbonio fel rhan o'r
diwrnod ac fel hen enw cymreig
am "cyfnos", "min y nos", neu
min nos.

Yr eiddoch,

Mrs B. Evans, Penisarwaun

Dawn Dweud Stori?

Beth am roi cynnig ar lunio sgwrs i'r rhaglen radio
boblogaidd 'Rhwyng Gwyl a Gwaith'.

Mae'r Golygydd yn chwilio am ddoniau newydd.
Sgrifennwch at R Alun Evans, BBC, Bryn Meirion, Bangor.

CWRS CEFNDIR 1989

Annwyl Olygydd,

Tybed a fyddai gan ddysgwyr
profiadol yn eich ardal ddiid-
dordeb mewn Cwrs Cefndir a
gynhelir ym Mawrth 1989 yn
Llanbedr Pont Steffan? Neu efal-
lai bod eich darllemnwyr yn
nabod dysgwyr lleol sydd am
wella eu gwybodaeth o'r
Gymraeg a'n diwylliant.

Fe'i trefnir gan Ganolfan
Dysgu Cymraeg i Oedolion yng
Nghaerdydd ar gyfer dysgwyr
sydd eisoes yn ddigon sicr eu
gafael ar yr iaith lafar ac yn awr
am ehangu eu gwybodaeth am
Gymru a'i diwylliant yn ogystal
â datblygu eu Cymraeg llafar ac
ysgrifenedig. Mae'r pwyslais ar
ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol
yn hytrach nag ar ddysgu'r iaith
yn ffurfiol.

Tybed a allwn ofyn, drwy golof-
nau'r papur, i'ch darllenwyr
dynnu sylw dysgwyr lleol at y
cwrs hwn?

Os ydych am fwy o fanylion,
cysylltwch â Geraint Wilson-
Price, Canolfan Dysgu Cymraeg
i Oedolion, 22 Heol y Parc,
Cathays, Caerdydd, (0222)
390980. Diolch yn fawr.

Yr eiddoch yn gywir

Geraint Wilson-Price

Cynorthwy-ydd i'r Swyddog
Ymchwil a Datblygu Dysgu
Cymraeg i Oedolion.

DEDDF IAITH NEWYDD Rali Genedlaethol

Sadwrn, Ionawr 28
am 2 o'r gloch

yn Neuadd Undeb y
Myfyrwyr Caerdydd

Siaradwyr:

John Ogwen,

Dr Meredydd Evans

Manon Rhys, Cen Llwyd

Cefin Roberts,

Helen Prosser

I drin a thrwsio
pob math o

beiriannau gwnïo

MENAI SEWING

MACHINE CENTRE

40 Stryd Fawr

PORTHAETHWY

Ffôn: (93) 714043

neu

Caernarfon 4520

edau, nodwyddau

ac ati mewn stoc

CYMDEITHAS WYDDONOL GWYNEDD

"Meistr ar Mistar Mostyn" oedd teitl trawiadol sgwrs Dr Hefin Jones o Goleg yr Imperial yn Llundain, i Gymdeithas Wyddonol Gwynedd ar nos Fawrth, Rhagfyr 6ed. Byrdwn ei neges oedd y defnydd helaeth a wneir o Blaleiddiaid i reoli plâu megis gwyfynod, llyslau a ffwng. Mae'r rhain wrth reswm yn datblygu gwrthiant naturiol i'r cemegau a ddefnyddir i'w lladd, fel bo'r amaethwr yn ei dro yn cael ei orfodi i ddefnyddio plaleiddiaid cryfach. Bygythiad y llygredd ddaw yn sgîl y cemegau niweidiol yma oedd neges Rachel Carson yn 1962 yn ei llyfr enwog 'Silent Spring'.

Mae angen ffyrdd gwahanol o waredu'r amgylchfyd o'r plâu, a dull Dr Jones yw rheoli biolegol sef defnyddio un organeb i reoli poblogaethau'r organeb pla. Enghraifft gyffredin o hyn yw'r Fwch Goch Gwta sy'n bwydo ar llyslau'r ffeuen a llyslau'r fresychen. Erbyn hyn mae 150 rhywogaeth o bryfed pla yn cael eu rheoli fel hyn.

Yn y flwyddyn newydd cawn ddwy ddarlith, y gyntaf ar Ionawr 3 gan Dr Ken Jones o Lanfairpwll ar ein hafonydd (gw. adroddiad isod), a'r ail ddarlith ar Chwefror 6ed pan fydd Mr Llew Williams o Fangor yn siarad am ffyrdd a phontydd Gwynedd. Bydd noson gymdeithasol a'r Cyfarfod Blynnyddol ym Mhlas Menai ar Fawrth 10fed a sgwrs wedi'r cinio gan dr Haydn Edwards o Langefni. I orffen y tymor awn i ymweld â Phwerdy Dinorwig ar Ebrill 15.

CYFLWR EIN HAFONYDD

A wyddoch chi y gallech chi fod yn derbyn ac yn yfed T.C.P. o'ch tap dwr; fod carthion heb eu trin yn cael eu harllwys i'r môr mewn sawl man ar hyd yr arfordir; a bod baw gwylanod sy'n nythu yn ystod yr haf yn gallu rhoi blas annymunol ar ein dwr yfed ni? Dyma rai o'r problemau mae awdurdod Dwr Cymru yn gorfod ymdrin â nhw; ac a gafodd sylw

yn ystod darlith gynhwysfawr a diddorol gan Dr Ken Jones sy'n gweithio i'r Awdurdod, nos Fawrth, Ionawr 3.

Damwain o golli galwyni o phenol i ddwr oedd eisoes yn cynnwys clorin ar gyfer ei buro, a barodd i'r T.C.P. ddod i'r tapiau, a byth er hynny mae Dwr Caer yn arbenigo ar flasau dwr, gyda disgrifiadau fel 'astringent, fishy, geranium' ac yn y blaen! Tybed pa flas sydd ar y dwr yn eich ardal chi!

Clywsom am y gwahanol agweddau ar waith Dwr Cymru, o ddarparu dwr iachusol yn ôl deddf 1945 i drin carthion a traeniad tir; ac mae'n amlwg fod y broblem o gadw llygad ar lendid ein hafonydd a'n traethau yn un enfawr.

Oherwydd cynnydd yn y boblogaeth a chodi gweithfeydd ar y glannau mae penderfyniadau dyls a waed hanner canrif yn ôl erbyn hyn yn annigonol. Cedwir cofrestr o'r holl arllwysadau yng Nghymru gan yr Awdurdod Dwr (ac mae croeso i'r cyhoedd gael golwg arno) ond gall trafferthion ychwanegol gael eu creu gan ddamweiniau sy'n peryglu bywyd gwyllt ein hafonydd, neu gan ddigwyddiadau naturiol fel yn achos y gwylanod.

Sonir am wario miliynau o bunocdd ar wella safonau glendid, ond a yw hyn yn ddigonol? Heb ganllawiau pendant gan y Llywodraeth ynglyn â llygredd o bob math, ni fydd hyn ond megis diferyn mewn trobwl. Does ond gobeithio y daw arweiniad cadarn mewn pryd, cyn i lygredd dyn ddifetha y dyfroedd a'r bywyd gwyllt sy'n ddibynnol arnynt.

TRIP TRÊN I LUNDAIN: Mae Pwyllgor Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru Dyffryn Nantlle ac Arfon 1990 yn trefnu trip trên i Lundain am y ddydd Sadwrn, Ebrill 15fed 1989. Bwrleddir Cychwyn o Fangor tua 6.30 y bore gan ddychwelyd o Lundain tua 6.30 yr hwyr. Y cyfan yn am £18 i oedolion a phen-siynwyr, £12 i blanyt. Dewch â'ch enwau, neu os ydych am ragor o fanylion cysylltwch ar fyrder ag Eirian Dulyn Owen, trefnydd yr Eisteddfod, Ffôn: Caernarfon 5733

GWIRIONI AR "C'MON MIDFFILD"



Rhai o blant y flwyddyn gyntaf Ysgol Brynrefail, Llanrug a fu'n gwylio'r gyfres boblogaidd "C'mon Midffild" fel rhan o'u gwaith Cymraeg yn yr ysgol. Ddechrau'r tymor ysgrifennodd y plant at olygydd y cylchgrawn SBEC i gystadlu, a lleisio'u barn am y gyfres. Ymddangosodd pytlau o rai o'r llythgyrau hyn yn SBEC Ionawr 21-27.

Alex Cropper (ail o'r chwith yn yr ail res) o Lanrug oedd yn fuddugol yn y gystadleuaeth — "Roedd ymateb gwresog ei ffrindiau i'w lwyddiant yn werth chweil." meddai Mrs Rhian Ellis, athrawes Gymraeg y dosbarth.

CAEATHRO

Gohebydd: Mrs Beryl Roberts, Gerallt, Erw Wen, Caernarfon.

CYDYMDEIMLIR yn ddwys iawn â Mrs Betty Roberts, Monfa, a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth o golli Mr Ifor Roberts yn ddiweddar. GER Y TÂN: Bydd y Clwb yn cyfarfod ar noson Santes Dwynwen, pryd y ceir noson allan yng Nglangwna.

CYNGOR CYMUNED: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor Cymuned yn y Waunfawr. Bydd swyddog o Adran Gynllunio'r Sir yn cysylltu â'r Cynghorydd Ifor Hughes ynglyn â chyflwr y coed ger y cae chwarae.

Mae'r Cyngor Sir wedi hysbysu'r Cyngor y bydd y ffordd sir di-ddosbarth sy'n arwain heibio mynedfa Ysbyty ar gau dros dro i drafndiaeth, o 8.00 yn y bore hyd 5.00 yr hwyr, o Chwefror 1af, ac yn parhau am dri mis neu hyd nes bod y gwaith wedi'i gwblhau, p'r un bynnag fo'r cyntaf.

Cytunwyd i'r cais gan feddygon Waunfawr i newid oriau'r

Feddygfa yn y Waunfawr o 5.00-6.30 yr hwyr i 4.30-6.00 yr hwyr.

Mae'r Cyngor Sir wedi gwrthod cais y Cyngor i atal parcio yn agos i groesffordd y pentref.

DIOLCH: Dymuna Mrs Roberts, 2 Caeathro Bach, ddiolch o galon i bawb am eu caredigrwydd ar ei phen-blwydd yn 80ain oed yn ddiweddar.

LLONGYFARCHIADAU i Jacqueline Evans, Llecyn Clyd, Erw Wen, ar ei phen-blwydd yn 21ain oed.

DIOLCH: Dymuna pensïynwyr y pentref ddiolch o galon i Bwyllgor y Cae Chwarae am y Parseli Nadolig a Gawsant eto eleni.

GWLEDD GERDD: Cofiwch am y cyngerdd a gynhelir yn Ysgol Brynrefail, nos Wener, Chwefror 10fed am 7.30. Ymdrech yw'r noson gan gyfeillion Gareth "o Lanrug", i godi arian at Ymchwil yr Arennau yn yr uned ym Mangor. Tocynnau £2 ar gael yn rhai o'r siopau lleol. Os am wledd peidiwch â methu'r cyngerdd.

Y GLORIAN

Tŷ Birmingham, 6 Stryd Goodman
LLANBERIS

Arbedwch bunnoedd ar eich bil siopa wythnosol. Dewch i weld ein amrywiaeth eang o fwydydd

Siwgr, Cawl, Blawd, Cnau, Pasta, Fferins, Diodydd, Ffrwythau Sych, Grawnfwydydd etc.

CEWCH BWYSO EICH BWYD EICH HUN YN ÔL
EICH ANGEN

AR AGOR BOB DYDD 9-8pm

Beth am ddysgu dreifio gydag

YSGOL YRRU

BETHEL

Cysylltwch â

Richard M. Hughes
42 Bro Rhos, Bethel

Portdinorwig
671009

GERAINT OWEN

Gosodwr carpedi a phob math o lorïau

Cil-y-Mynydd
WAUNFAWR

Ffôn:
Waunfawr 552

LLANRUG

DYMUNA Barbara a Bryn, Crud-y-Werin, Porthaethwy, ddiolch o galon i'w teulu a'u ffrindiau am y llun cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar enedigaeth eu merch Ffion.

DIOLCHIADAU: Dymuna Mrs Ceridwen Williams a'r teulu 25 Hafan Elan ddiolch i'w ffrindiau a chymdogion yn Llanrug ac ardaloedd bro yr "Eco" am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli priod annwyl a thad tyner, sef Ifor Williams.

Diolch am y llun cardiau a'r llythyrau, hefyd y rhodd o £270 a dderbyniwyd tuag at Feddygfa Dr Williams a Dr Roberts.

DIOLCH: Dymuna Mrs Annie Williams 18 Hafan Elan ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau a ddaeth i'w gweld yng nghartref y Foelas dros dymor y Nadolig, diolch hefyd i bawb am y llun cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei phenblwydd yn 86. Dymuna hefyd, ynghyd â holl drigolion y Foelas, ddiolch i'r Parch. Ganon Richard Jones am ymweld a'r cartref yn gyson a rhoddi iddynt y Cymun Bendigaidd. Pob bendith i'r Parch Richard Jones a Mrs Jones yn eu plwyf newydd ar Ynys Môn.

ENILLWYR RAFFL NADOLIG CLWB PELDROED LLANRUG

£100 - E. Thomas, Erw Forch, Bethel; £50 - S. Williams, 7 Nant Cottage, Bangor; £20 - June, Rhandir Mwyn, Llanrug; Wisgi - Sel, N.T.S.; £5 - W. Owen, Lôn Glai, Pontrug; Martini - Rhiannor Parry, Ysgol Creuddyn, Llandudno; £5 - Carolyn, Est. 4328 Y. G.; Siocled - M. Robert, 3 Vicarage Close, Bodelwyddan; Ffrwythau - R. K. Williams, B.T. Tec. Llangefni Gwin - Gwenfair Parry, Ysgol Creuddyn, Llandudno; £5 - Dawn Stuart, 8 Bryn Islwyn, Penrhyndeudraeth; Bisgedi - R.K. Williams, B.T. Tec, Llangefni; Gwin - Kevin Parry, c/o Leos, Caernarfon; £5 - Chris, Room 240, Y.G.; Siocled - Karen Evans, 24 Nant Y Glyn, Llanrug; Câs Gobennydd - Evans, 9 Nant Y Glyn, Llanrug; Siocled - Pete, c/o Kwiks, Amlwch.

Mae'r Clwb yn ddiolchgar i bawb a gyfrannodd, mewn anrhegion neu arian, tuag at lwyddiant y Raffl.

CLWB 200 RHAGFYR

£120: W. Owen, Lôn Glai, Pontrug; £60: E. Hughes Jones, Banc Y Midland Caernarfon; £40: G. Pritchard, Cefn Llwyd, Llanrug; £20: T. Jones, 14 Talybont, Llanrug; £10: H. Jones, 8 Rhos Rug, Llanrug; £10: H. Jones, 5 Bro Rhythallt, Llanrug; £10: G. Jones, "Cefn", Deiniolen; £10: N. Brobyn, Rochdale House, Llanrug; £10: Colin Griffiths, Llanrug; £10: Elfed Roberts, Glanfynnon, Llanrug.

Os oes rhywun a diddordeb i ymuno a'r clwb, cysyllter ag unrhyw aelod o'r pwyllgor neu William Pritchard, Stad Bryn Moelyn, Llanrug

DYMUNA Gwyn Bowie ddiolch i aelodau'r Band a'r pwyllgorau, a ffrindiau o'r Pentref am eu rhoddion a'u cyfarchion ar achlysur ei ymadawiad â'r Band i ddechrau ei yrfa fel cerddor yn yr Household Cavalry. Dechreuodd ei hyfforddiant ar y 9fed o Ionawr yn Pirbright, Surrey.

MERCHED Y WAWR: Noson i ddathlu'r Nadolig oedd gan y gangen uchod ar Ragfyr 13eg yn yr Ysgol Gynradd — 'Noson Bys a Bawd' a daeth pob aelod a'i chynryrch o wahanol ddanteithion blasus a chafwyd gwledd ragorol. Yn dilyn cafwyd adloniant gan Jini Owen ac Ann Hopcyn a mwynhawyd eu cwmni yn fawr iawn.

Diolchwyd iddynt gan y Llywydd, Mrs Ann Ifans a Mrs Eryl Roberts. Darparwyd paned gan Janice Jones, Olwen Huws ac Eryl Roberts. Rhoddwyd y raffl gan Janice Jones, Eirlys Williams a Margaret Fôn Parry, a'r enillwyr oedd Megan Jones ac Ann Humphreys.

MERCHED Y WAWR: Ar Ionawr 10fed cafwyd noson ddiddorol a gwahanol i'r arfer yn y gangen. Daeth Annie Jones a Sian Edwards o gymdeithas LIFE i sgwrsio am eu gwaith. Cyn i Annie ddechrau siarad fe wnaeth Sian yn siwr fod yr aelodau i gyd wedi

TEULU MORRIS GRIFFITH



Derbyniwyd y llun uchod o "deulu Morris Griffith, Siop Llanrug". Mae'n ymddangos mai llun ydyw o ddwy chwaer Morris Griffith a'u gwyr, a mam Morris Griffith. Ond ble tynnwyd y llun? Pwy oedd y chwiorydd? A pha siop yn Llanrug oedd yn cael ei chadw gan Morris Griffith. Yr unig wybodaeth arall sydd gennym yw mai teulu Rhos Meulan, Llandwrog oeddynt. Oes rhywun all roi mwy o wybodaeth?

ymlacio'n llwyr drwy wneud ymarferiadau syml i gerddoriaeth.

Mae dau ystyr i'r llythrennau LIFE "Life in Faith Everlasting" a "Love is For Everyone". Wrth wrando ar y merched gellid yn hawdd weld gwirionedd hyn. Prif nôd y gymdeithas yw creu gwell ansawdd i fywyd.

Nid oes angen bod yn wael cyn cysylltu â nhw — mae modd gweithio i geisio osgoi afiechydon. Dengys ystadegau diweddar fod poen meddwl yn beth ar gynnydd yn ein cymdeithas a bod perthynas bendant rhyngddo â chancr a rhai afiechydon eraill. Mae'n hanfodol i ni geisio disgyblu ein hunain i ymlacio'n rheolaidd.

Os gwyddoch am ffrind neu berthynas a fyddai'n debygol o elwa ar y gwasanaeth hwn — cysylltwch â Sian ar Bangor 370076 ac fe fydd yn barod iawn i wrando.

Diolchodd Gillian Morris i'r ddwy wraig wadd a diolchodd Gwenda Roberts i'r genod wnaeth y baned — Ann Tomos, Ann Humphreys a Linda Jones. Llongyfarchwyd Joan Griffith ar ddod yn nain — ganwyd merch fach i Gerald ac Eira. Enillodd Olwen Huws y raffl.

Dan nawdd y Comisiwn Cefn Gwlad trafodir y cynllun Jigso Lleol yn y cyfarfod nesaf ar Chwefror 14.

CYMDEITHAS LENYDDOL:

Cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi dan nawdd Cymdeithas Lenyddol Capel Mawr nos Fercher 4ydd o Ionawr. Cymerwyd rhan gan Mr Eifion Roberts, y Parch John Morris BD, Mrs Beryl Thomas, Mr Alf Parry a Mr John W Owen.

PLAID CYMRU: Croesawyd Dafydd ac Elinor Wigley i ginio Nadolig y gangen a gynhaliwyd yng Ngwesty Seiont Manor — Llwyn Brain, ym mis Rhagfyr. Enillwyd y raffl gan Ann Evans, Penisarwaun a Cliff Williams, Llanrug. Daeth Dyfan Roberts a llun o'i gyfeillion yno i'n diddanu ar ôl y cinio. Diolchwyd yn gynnes iddo gan Phyllis Elis. Enillwyr y Clwb Cant oedd Phyllis Elis a John Rowlands.

Nos Fercher, Chwefror 8 cawn ddarlith gan yr Athro Bedwyr Lewis Jones ac estynnwn wahoddiad a chroeso i bawb i'r cyfarfod yma.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL: Nos Fawrth, bu plant yr Ysgol Gynradd dan arweiniad eu hathrawes, Mrs Mair Lloyd Huws, yn diddanu yr aelodau. Cafwyd eitemau unigol o adrodd, canu ac offerynau cerdd, ynghyd â chôr yr ysgol yn cymeryd rhan.

Maent i'w llongyfarch am eu cyfraniadau arbennig o safon uchel. Llywydd y noson oedd Miss Megan Humphreys, a thalwyd diolch i Mrs Huws a'r plant am noson bleserus gan Mrs J Ll Williams.

Bydd y cyfarfod nesaf ar y 31ain, a disgwylir y Parch W R Williams, Y Felinheli i roi sgwrs.

GWLEDD GERDD: Cofiwch am y cyngerdd a gynhelir yn Ysgol Brynrefall, nos Wener, Chwefror 10fed am 7.30. Ymdrech yw'r noson gan gyfeillion Gareth "o Lanrug", i godi arian at Ymchwil yr Arennau yn yr uned ym Mangor. Tocynnau £2 ar gael yn rhai o'r siopau lleol. Os am wledd peidiwch â methu'r cyngerdd.

LLONGYFARCHIADAU i Susan Morris, Clydfan, Ffordd yr Orsaf, Llanrug ar ennill cymwysterau nyrs RGN yn Ysbyty'r Brifysgol, Caerdydd.



CARTREF YR HENOED
CARTREF NEWYDD COFRESTREDIG
AG IDDO AWYRGYLCH GYMREIG
CYSYLLTWCH Â MRS MEIRWEN
THOMAS NEU MRS ELI WILLIAMS
Ffordd yr Orsaf, Llanrug, Caernarfon
(0286) 4652

**Wavell
Roberts**
CIGYDD

**LONDON HOUSE
LLANRUG**

Ffôn: Caernarfon 3574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod
i'w bwyta

Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

CLWB IEUENCTID: Yn ystod mis Rhagfyr trefnwyd "sponsored car push" ar fore Sul — diolchwn i bawb a gyfrannodd. Cawsom drip i'r Octagon ym Mangor lle cynhaliwyd Disgo Nadolig ar gyfer clybiau yn Arfon ac yn Ogwen, roedd y noson yn llwyddiannus iawn gyda phawb wedi mwynhau eu hunain.

Aeth dau aelod o'r clwb, Dawn Owen a Colin Jones, o amgylch stad yr henoed yn Hafan Elan bore Sul cyn y Nadolig gyda bag o goed tân. Hoffwn ddiolch i B & K Williams o'r Hen Ysgol a roddodd y coed i'r clwb er mwyn i'r aelodau gael eu torri yn briciau tân.

Gorffennwyd y tymor gyda noson o ffilm a chwis gyda sosej rolls a mins peis ar gael i bawb oedd yn bresennol. Carwn ddiolch yn fawr iawn, unwaith eto eleni, i Becws Bryngwyn am y sosej rolls a'r mins peis.

Yn y flwyddyn newydd edrychwn ymlaen i fynd i gymeryd rhan yn y rhaglen Stîd a llawer o weithgareddau eraill.

ATGYWEIRIO'R SEFYDLIAD COFFA

Agorwyd Sefydliad Coffa Llanrug ym 1922, ac fe'i cofrestrwyd fel Elusen ar Chwefror 19, 1964 (Rhif 218291). Ym 1970 adeiladwyd estyniad i gynnwys dau fwrdd snwcer.

Gan fod yr adeilad yn dyddio o hanner ola'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd ei gyflwr wedi dirywio'n arw. Penderfynwyd gofyn i Gyngor Cymuned Llanrug ac i'r Comisiwn Gwasanaethau Gyflogaeth am gymorth i'w adnewyddu. Trwy foderneiddio y gegin, ail-ddodrefnu a gosod toiledau newydd oddi mewn, bydd gan y pentref Ganolfan Gymuned deilwng er cof am aberth y bechgyn a gollodd eu bywydau yn y ddau ryfel byd.

Ar ôl cwblhau'r gwaith bydd ieuencid ac oedolion y pentref yn parhau i ddefnyddio'r stafell snwcer, biliards a pwl, a'r gobaith yw y bydd gwell cyfleusterau yn dew'n mwy o ieuencid i'r Ganolfan, yn hytrach na threulio'u nosweithiau ar hyd y strydoedd.

Bydd yr adeilad yn lanach ac yn fwy cysurus i'r cymdeithasau

lleol fydd yn dymuno defnyddio'r ystafelloedd ar gyfer gyrfa chwist, noson goffi, bingo, neu gyfarfodydd cyffredinol. Fe fydd hefyd yn fan cyfarfod i Glwb yr Henoed, ac os bydd angen gellir ei ddefnyddio eto fel meddygfa neu glinig.

Trefnwyd y gwaith yn bedair rhan. Gwnaed difrod ychwanegol gan stormydd 1987/88, ac oherwydd hyn bu cost Rhan 1 a Rhan 2 o'r cynllun yn uwch na'r disgwyl. Canlyniad hyn yw prinder arian yn y gronfa i ddilyn ymlaen â Rhan 3 a 4 — gwaith sydd yn angenrheidiol er cysur y rhai fydd yn defnyddio'r Sefydliad.

Oherwydd bod y gwaith atgyweirio yn mynd ymlaen, nid oedd modd defnyddio'r adeilad ym 1987/88 a chollwyd yr incwm fyddai'n deillio o'i osod. Mae'r timau snwcer sydd yn mynychu'r adeilad wedi ennill nifer o wobrau, ac maent yn hunan-gynhaliol. Mae'r elw a wnant wrth werthu diod oren, te a choffi, neu o drefnu raffl, yn ddigon i dalu eu holl gostau. Mae cyfrif ariannol a mantolen anibynnol gan y rhan yma o weithgareddau'r Sefydliad.

Dewch i weld y gwelliannau sydd eisoes wedi eu cwblhau; hefyd mae croeso i chwi ymuno â'r pwyllgor. Gofynnwn yn garedig am eich cefnogaeth i'n cynorthwyo i orffen y prosiect drwy hybu ein gweithgareddau i godi arian, neu trwy gyfraniad uniongyrchol i unrhyw un o'r Swyddogion.

Mae'r Sefydliad Coffa yn haeddu cefnogaeth yr ardal, gan mai yma'n unig y gwelir cofeb i feibion y pentref a roddodd eu bywydau dros eu gwlad yn y ddau ryfel byd. Byddwn yn ddiolchgar am eich cefnogaeth.

Yn gywir,
W J Griffith (Ysgrifennydd)
Ar ran yr Ymddiriedolwyr

DYNION

Cofiwch bod y clinig i'ch cadw'n holliach ar agor bob nos Lun yn Llanberis rhwng 6 ac 8 o'r gloch

CYMDEITHAS CYNGHORAU CYMUNED ARFON

Mae'n ymddangos y caiff Cylch newydd o Gymdeithas Cyngorau Bro a Thref ei sefydlu yn ardal Arfon yn dilyn cyfarfod yng Nghaernarfon, lle y cytunodd cynrychiolwyr cyngorau cymuned Arfon y dylid ymuno â'r gymdeithas genedlaethol.

Yn dilyn y cyfarfod, a fynychwyd gan nifer o gynghorau ledled Arfon, dywedodd y Cyng Alun Ffred Jones o Lanllyfni, Cadeirydd Cymdeithas Cyngorau Cymuned Arfon: "Mae'r Gymdeithas wedi cytuno, o ran egwyddor, y dylid ymuno â'r gymdeithas genedlaethol. Byddwn yn cysylltu ar unwaith i ofyn barn pob cyngor cymuned yn Arfon. Drwy ymaelodi'n ffurfiol â'r gymdeithas genedlaethol mae'n ymddangos y bydd genym dipyn mwy o rym i ymgychu ar bynciau o bwys ar ran cyngorau cymuned yr ardal."

Mewn cyfarfod yn yr Institiwt, Caernarfon, wythnos ynghynt roedd prif swyddogion Cymdeithas Cyngorau Bro a

Thref Cymru wedi galw am sefydlu cangen o'r gymdeithas genedlaethol yn ardal Arfon. Dywedodd E G Millward, Cadeirydd y gymdeithas Genedlaethol ei fod yn croesawu'r camau diweddaraf yma i gael trefn ar weithgarwch y cynghorau bro yn Arfon. Dywedodd: "Mae'n amlwg fod Cymdeithas Cyngorau Cymuned Arfon wedi gwneud gwaith rhagorol yn barod i hyrwyddo gwaith cyngorau cymuned Arfon. Drwy ymuno gyda'r gymdeithas genedlaethol bydd gan y 'cylch' neu'r gymdeithas newydd yr hawl statudol i gysylltu'n uniongyrchol gyda'r Swyddfa Gymreig, y Cyngor Defnyddwyr, y Swyddfa Bost, a.y.b., er lles holl gynghorau cymuned dalgylch Cyngor Arfon."

Eisoes mae Cymdeithas Cyngorau Cymuned Arfon wedi cynnal nifer o gyfarfodydd i drafod y dreth gymuned, tai, cynllunio a thwristiaeth. Bydd rhaglen lawn arall yn cael ei threfnu ar gyfer 1989.

Y GOEDEN DDRAIN

Mae'r gwynt yn udo'n oer a main,
Yn plygu brigau'r goeden ddrain;
Rwy'n gweld y Gaeaf yn y gwynt,
A hiraeth ddaw am ddyddiau gynt.

Pan oedd iaith fy ngwlad mewn clod a bri,
Cyn i'r teyrn roi gorthrwm arni hi;
Mae'r curlaw'n curo brig y berth,
A'r Werin wedi colli gweld ei gwerth!

Ac yn ei chysgod, magwyd cewri'r fro,
Yn dwyn eu maeth o'i gwreiddiau yn y gro,
Er bod hualau'r Gaeaf wedi cloi y fro,
Daw'r Gwanwyn eto, rywbyrd yn ei dro.

A blagur newydd ddaw i frig y goeden ddrain,
A blodau hardd fel patrwm, darlun cain;
A chewri newydd ddaw i sugno'r maeth a'r mêl
Gan droi i'r gwreiddiau gydag afiaeth yn eu sêl.

John V Morris
Rhianfa, Deiniolen

PLAID CYMRU

Noson Gwyl Ddewi
Nos Fercher, Mawrth 1
7.30 o'r gloch
yng Nglangwna, Caeathro
Geraint Lovgreen
a'r Enw Da
Tocynnau £6. Plant £3.50.
yn cynnwys bwyd mewn
basged
Croeso i bawb
Tocynnau: ffoniwch
Waunfawr 200 neu
Caernarfon 5668

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL A
RHAD YM MHRYDAIN A THRAMOR ...



**BYSIAU ARFON
LLANRUG**

(Eric Morris)
Ffôn: Caernarfon 5175 77858

BRYN

(B & K Williams)

Hen Ysgol
Glanmoelyn

LLANRUG

Ffôn 77482 (dydd)
870793 (nos)

Gwneuthurwyr Ffenestri,
Drysau, Grisau neu
unrhyw fath o gynnyrch
coed. Y coed meddal wedi
derbyn triniaeth arbennig i
wneud iddynt bara.

DINORWIG

Gohebydd: Mr D.J. Thomas, 8 Maes Eilian

APÊL ARMENIA: Casglwyd £60 tuag at Gronfa Apêl Armenia ar ôl i griw o'r pentref a ffrindiau o Lanberis fynd o gwmpas y ddau bentref yn canu carolau nos Sul cyn y Nadolig. Dymunir diolch i Mr H E Hughes o Lanberis am sicrhau cludiant yn rhad ac am ddim ac i Gwmni Drama Llanberis am gael defnyddio'r harmoniwm, heb anghofio wrth gwrs am y cantorion a wnaeth eu gwaith mor ardderchog. Bu pawb yn hael iawn eu cyfraniad wrth i'r casglwyr fynd o gwmpas y tai ac fel sydd wedi ei nodi eisoes casglwyd swm anrhydeddus iawn tuag at apêl haeddiannol iawn.

EGLWYS ST MAIR: Ers bron i dri mis bellach a hynny ar ddydd Mawrth o bob wythnos mae criw o fechgyn dan oruchwyliaeth Mr Richard Wyn Parry wedi bod wrthi yn gwneud gwaith atgyweirio yn Eglwys St Mair. Bechgyn yw rhain sydd wedi troseddu ac o'r herwydd wedi cael gorchymyn gan y Llys i gwneud gwaith cymunedol yn hytrach na threulio cyfnod mewn carchar. Mae'r gwasanaeth yn dod o dan ofal Gwasanaeth Prawf Gogledd Cymru. Yn ôl Mr Parry, pwrpas y gwasanaeth yw tynnu y da allan o'r bechgyn hyn trwy iddynt wasanaethu y gymuned leol, a dyna sydd y tu ôl i'r gwaith o atgyweirio Eglwys St Mair. Mae dau o fechgyn lleol yn gweithio ar y cynllun, sef Richard a Clive Horton. Yr aelod arall yw Robert Curry o Gaernarfon. Maent wedi bod wrthi yn ddygn iawn yn ystod y misoedd diwethaf ac mae aelodau Eglwys St Mair yn ddiolchgar ac yn werthfawrogol o'r gwaith sydd eisoes wedi ei gwneud.

Y JIGSO LLEOL: Clywaf nifer ohonoch yn gofyn beth yw Jigso Lleol? Cwestiwn da. Enw ydyw ar gynllun sydd wedi ei noddi gan Gomisiwn Cefn Gwlad Cymru, a chymdeithasau tebyg eraill, sydd yn rhoi cyfle i bobl ddod at ei gilydd i wybod a dysgu mwy am eu cymunedau. Fe ddisgrifir yr ymarfer yma fel chwarae jigso gan mai dyna yw cymuned, sef amrywiaeth o elfennau gwahanol — pobl o

bob oed; mudiadau a chymdeithasau gwahanol; cyfleusterau lleol fel siop ac ysgol. Y darnau yma wrth ddod a hwy at ei gilydd yn gwneud un jigso mawr. I lansio y cynllun bydd cyfarfod yn cael ei gynnal yn y Ganolfan a bydd croeso i bawb ddod yno. Yn y cyfarfod hwnnw gobeithir cael swyddog sydd yn gysylltiedig â'r cynllun yma trwy Gymru i ddod i annerch, yn ogystal â dangos fideo sydd yn adrodd sut mae nifer o gymunedau ledled Cymru wedi ymgymryd â phrosiectau gwahanol. Os ydych â diddordeb ac eisiau gwybod mwy am y cynllun yna cysylltwch â Mr Glyn Tomos.

PEN GALLT Y FOEL: Ymddengys yn awr mai rhywbryd yn ystod mis Mawrth y byddwn yn gweld gwaith gwella yn cael ei gwneud ar ben Gallt y Foel. Dyna oedd yr addewid a roddwyd i Gyngor Cymuned Llanddeiniolen gan y Cyngor Sir yn ddiweddar. Yn naturiol gan fod cymaint o ddisgwyl wedi bod ar weld gwaith o'r fath yn cael ei gwneud, mater o obeithio unwaith yn rhagor ydyw yn awr i weld os bydd gweithredu gwirioneddol y tro hwn. Ar hyn o bryd mae'r safle dan sylw yn peri pryder mawr i fodurwyr ac o weld y dwr sydd yn dylifo o'r caeau cyfagos i'r ffordd fawr ar ddyddiau gwlyb, mae'n bwsyg bod y broblem yma yn cael sylw buan. Ni hoffir meddwl beth a allai ddigwydd pe byddai y dwr yma sydd yn llifo i'r ffordd fawr yn rhewi yn ystod y Gaeaf. Edrychwn ymlaen at weld y Cyngor Sir yn cadw at eu haddewid.

Erbyn y daw rhifyn Ionawr 1989 o'r wasg, fe fyddwn wedi hen gefnu ar riantwch y Nadolig gyda'r holl baratoi a fu ar gyfer yr ywl a'r canu carolau.

Y GYMDEITHAS DDIWYLLIADOL: A ninnau bellach fwy na hanner y ffordd trwy raglen y Gymdeithas Ddiwylliadol, purion peth fydd adolygu'r hyn a wnaethpwyd o ddechrau'r tymor hyd Nadolig 1988 a chynnwys peth o hanes cyrddau cyntaf 1989.

Ar Hydref 27ain trefnwyd y

noson gyntaf yng nghwmni Band leuenctid Deiniolen, ond er hwy-lustod i'r band fe'i cynhaliwyd ar Hydref 20fed, sef wythnos yn gynharach. Fe wasanaethwyd yn ogystal gan Catrin Roberts, Ffion ac Eleri Davies, Bangor; Mr Cecil Owen, Gaerwen — (Cecil Ty'n Fawnog) — un o blant yr ardal oedd yn llywyddu. Roedd hi'n amlwg ddigon ei fod yn cwbl werthfawrogi cael gwahoddiad yn ôl i ardal ei eni a'i fagu.

Dr Dafydd Owen o Amgueddfa 'Gilfach Ddu' Llanberis, oedd gyda ni ar Dachwedd 10fed, ac ni chyfyngodd ef ei sylwadau i dwf diwydiant yn yr ardal hon yn unig, ond fe'n cymhellodd i ledi ein gorwelion, ac ystyried sut bu i'r diwydiant effeithio ar ardaloedd eraill yn ogystal. Rhaid oedd datblygu dulliau gwahanol o gludo'r nwydd i borthladdoedd glannau y moroedd a'r galw a fu am longau cludo pwrpasol i gysylltu â gwledydd eraill. Fe greodd yr ymchwil i'r datblygiad ei ramant cynhenid ei hun. Mr Hugh Thomas, Bro Elidir oedd yn llywyddu y tro hwn.

Erbyn Tachwedd 24ain, Miss Nora Jones, Bangor oedd yn y Ganolfan gyda 'slides' o olygfeydd yn yr Himalayas ac fe ddatguddiwyd cyfoeth materol anhygoel Indiaid y gwastadeddau mewn cyferbyniad i drigolion y mynyddoedd uchel oedd yn byw mewn cryn dlodi.

Y tymor diwethaf fe fu Miss Jones yn sôn am helyntion y Wladfa ym Mhatagonia a'r modd y bu i'r Sbaenwyr 'ecsploetio' a gormesu trigolion gwreiddiol y rhandir arbennig hwn. Fe fu'r Cymry a ymfudodd yno yn trin y brodorion yn fwy caredig ac o ganlyniad, ennill eu cyfeillgarwch. Ffoi oddi wrth ormes y meistri tir yn yr hen wlad a wnaeth y Cymry a dioddef cryn galedi ar eu taith ac ar ôl cyrraedd pen eu siwrnai. Fe glywais i fy mam lawer tro yn sôn am Gwyneth Vaughan — un o'r Cymry a adawodd wlad eu geni a wynebu peryglon setlo i lawr mewn gwlad ddieithr wyllt, ac roedd lleoedd fel 'Trelew' yn enwau y deuais ar eu traws mewn llyfrau diddorol am y 'byd newydd' tu hwnt i fôr yr Iwerydd. Os cofiaf yn iawn roedd yr Henadur William George o Grieth yn dal mewn cyswllt trwy lythrau â rhai o'r gwladfawyr dewr. Yr un a lywyddai y noswaith hon oedd Miss Ellen Wyn Jones, Ty'n Fawnog a gyfrifai Miss Nora Jones, fel un o'r chyfeillion hoff.

Erbyn Rhagfyr 8fed gyda Mrs Megan P Morris, Minffordd yn llywyddu, yr oeddem yng nghwmni Mrs Mary Vaughan Jones, Waunfawr — hithau'n traethu ar hanes Patagonia. Fe welwyd llawer o lwrob yn mentro allan i'r Gorllewin a setlo i lawr yng Nghanada a'r Unol Daleithiau, ac yn cynorthwyo i sefydlu cenedl newydd o dan amodau gwahanol i'r hyn oeddent wedi ymarfer ag ef o'r blaen. Roedd y tywydd a hyd

yn oed arwynebedd y tir yn gwbl wahanol, ac fel y treiglai'r blynyddoedd roeddent yn datblygu iaith gwbl wahanol, ac yn graddol ddod i siarad yn fwy trwynol. Meithrinwyd diwylliant gwahanol.

Er i'r gwasanaeth carolau ar Ragfyr 22ain gael ei drefnu'n wreiddiol i fod yn Eglwys St Mair, fe fu peth atgyweirio yn y fan honno gyda'r canlyniad bod rhaid cynnal y cyfarfod, dan arweiniad Mrs Beti Lloyd Roberts, 11 Maes Elidir a Miss Olwen B Roberts, Ty'r Ysgol, yn y Ganolfan, a Miss Roberts yn cynorthwyo gyda'r piano.

ANHWYLDER: Fe fu cryn nifer dan y fflw a fu'n sgubo'r wlad y dyddiau diwethaf hyn, a rhaid oedd i'r cyfryw rai ofalu am gynhesrwydd. Gwell, efallai, yw peidio dechrau enwi yn y cyswllt yma.

GWELLHAD BUAN: Un sy'n hawlio ein sylw serch hynny yw Miss Ellen Thomas (Nell Buarth Newydd) a aeth i'r ysbyty am driniaeth ar ei phenglin a'i chlun. Yr ydym yn gobeithio i'r cyfan ei harwain ar ffordd gwellhâd. Yr oeddem yn ei hadnabod fel un oedd bob amser yn heini ar ei throed.

Blin gennym yn ogystal orfod cyfeirio at yr anhwylder a ddaeth i ran Mr Gwilym Griffith Jones, Y Foel. Fe'n hamddifadwyd ninnau yn Sardis o'i wasanaeth ar yr organ ac nid hawdd yw cael y 'trawiad' cywir heb offeryn.

Deallwn bod Miss Marian Jones, Bro Elidir wedi bod yn un o ysbytai Lerpwl am driniaeth ar ei llygaid, sydd wedi bod yn ddolurus ers crys amser bellach.

Dymunwn wellhad buan i'r tri ohonynt.

Fe welsom agor ail hanner y Gymdeithas Ddiwylliadol gyda Chwedd Gweddi Dechrau'r Flwyddyn yn y Ganolfan eto. Dyma'r fan mwyaf pwrpasol i gynnal y cyfarfod hwn yn lle yng Nghapel Sardis (B). Rhaid tystio i ni gael oedfa adeiladol iawn — yn cadw'n fyw draddodiad y cyrddau gweddi hyn. Chwirydd Sardis oedd wedi trefnu'r oedfa hon ar Ionawr 5ed, ar noson arferol y Gymdeithas — sef nos lau. Fe gyfeiliwyd gan Mrs Beti Lloyd Roberts, Maes Eilian ac roedd pawb yn gwbl gartrefol.

Mr Arwel Jones, Penisarwun fydd gyda ni nos Fercher yr wythnos hon — sef Ionawr 18fed.

Awn ymlaen felly i 1989 a hanner mis Ionawr eisoes wedi ei dreulio.

DIOLCH: Dymuna Kevin a Gwenno ddiolch yn fawr i bawb am y llu anrhegion, arian a chardiau a dderbyniasant ar achlysur eu priodas.

GWLEDD GERDD: Cofiwch am y cyngerdd a gynhelir yn Ysgol Brynrefail, nos Wener, Chwefror 10fed am 7.30. Ymdrech yw'r noson gan gyfeillion Gareth "o Lanrug", I godi arian at Ymchwil yr Arennau yn yr uned ym Mangor. Tocynnau £2 ar gael yn rhai o'r siopau lleol. Os am wledd peldiwrch â methu'r cyngerdd.

CYFLE I ASTUDIO'N LLAWN AMSER

Coleg preswyl tymor-hir ar gyfer addysg oedolion yw Coleg Harlech, yn cynnig cyrsiau i ferched a dynion dros 21 — yn arbenig y rhai a adawodd yr ysgol yn gynnar — yn y pynciau canlynol: Llenyddiaeth Saesneg; Economeg; Hanes; Cysylltiadau Diwydiannol; Athroniaeth; Gwleidyddiaeth; Seicoleg; Cymdeithaseg; Y Cyfryngau; Diwylliant a Chymdeithas; Astudiaethau Cymreig (Economeg, Hanes a Chymdeithaseg Cymru); Llenyddiaeth Gymraeg; Cwrs y Bont (cwrs pontio i ddysgwyr Cymraeg); Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg (ar gyfer dysgwyr). Dewisir dau bnc.

Arwain cwrs dwy-flynedd i Ddiploma Prifysgol Cymru Mewn Astudiaethau Cyffredinol sydd â'i statws ei hun ac hefyd yn bodloni gofynion derbyniad prifysgolion a cholegau politechnic ac addysg.

Y mae crysiau blwyddyn gyda Thystysgrif y Coleg ar gael hefyd yn yr un pynciau.

Ceir mynediad drwy gyfweiliad: nid oes angen cymwysterau. Y mae grantiau ar gael i ymgeiswyr addas.

Am brospectws a ffyflen gais ysgrifennwch (gan ddyfynu'r rhif cyfeiriol PB) at y Cofrestrwydd yn y cyfeiriad isod:

Coleg Harlech, Harlech, Gwynedd LL46 2PU

DEINIOLEN

GOHEBYDD: W. O. Williams, 6 Rhydfadog (Llanberis 871259)

GRADD: Llongyfarchiadau i Mr Gwyn Parri, B.A., Cynefin, Deiniolen ar ennill ohono radd M.Add.

Mae Mr Parri yn Bennaeth Addysg Grefyddol ac yn Gyd-gysylltwr Addysg Gymunedol yn Ysgol David Hughes, Porthaethwy.

MERCHED Y WAWR: Cynhaliwyd cyfarfod o Ferched y Wawr ar Ragfyr 19eg o dan arweiniad Mrs Buddug Jones, y Llywydd. Cawsom noson ddifyr iawn o ganu Carolau dan ofal Mrs Nest Ifans. Diolchwyd gan Mrs Buddug Jones ac enillwyd y raffl gan Mrs Margaret Roberts ac Eirlys Williams. Cafwyd paned o de a mins pei i orffen. Bydd y cyfarfod nesaf ar Ionawr 16eg, pryd y bydd Mrs Janet Hughes yn ein diddanu. SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod o'r sefydliad yn y Ganolfan ar Ragfyr 5 o dan arweiniad Mrs J Eirlys Williams, y Llywydd.

Cawsom y cyfarfod blynyddol gyda Mrs M Harding Roberts, Penrhos, Bangor, yn cael ei chynorthwyo gan Mrs Pat Jones a Mrs Carol Houston, Brynrefail.

Darllenwyd y llythyr misol a chafwyd adroddiad gan Mrs Glenys Williams y trysorydd. Cafwyd cofnodion am y flwyddyn gan Mrs Beti Wyn Davies. Diolchwyd iddynt oll gan y llywydd. Rhoddwyd y te gan y pwyllgor ac enillwyd y raffl gan Mrs Diana Price.

Dyma'r pwyllgor am 1989:

Llywydd: Mrs Eirlys Ll Jones; Is-lywydd: Mrs J Eirlys Williams; Ysgrifennydd: Mrs Beti Wyn Davies; Trysorydd: Mrs Glenys Williams. Hefyd ar y pwyllgor mae Mrs Beryl Hughes, Mrs Janice Land, Miss Jean Moller, Mrs Marian W Williams, Mrs Marian Williams, Mrs Dilys Williams.

Cynhaliwyd cyfarfod arall o'r Sefydliad yn y Ganolfan ar Ionawr 9fed dan arweiniad Mrs Eirlys Lloyd Jones, y Llywydd. Croesawodd Mrs Jones yr aelodau i gyfarfod cyntaf y flwyddyn newydd. Darllenodd Mrs Jones y llythyr misol a chroesawodd y wraig wadd, sef Mrs Marian Williams. Cawsom noson ddifyr iawn gan Miss Williams. Yr enillydd oedd Miss Eileen Williams. Diolchwyd i Mrs Williams gan Miss Beti Williams. Rhoddwyd y te gan Mrs Dilys Williams a Miss Betty Williams. Enillwyd y raffl gan Mrs J Eirlys Williams a Mrs Beti Wyn Davies. Llongyfarchwyd Mrs J Eirlys Williams ar ei phen-blwydd.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Chwefror 6ed pan ddisgwylir sgwrs am Gwn y Deillion.

CLWB ELIDIR: Cynhaliwyd cyfarfod o'r uchod ar y 10fed o Ionawr pryd y treuliodd prynhawn difyr iawn yng nghwmni Mr Hughie Jones, Vaynol Terrace. Rhoddwyd y te gan Mrs Eirlys Ll Jones, Mrs J

Eirlys Williams, Mrs Dilys Thomas a Miss Eileen Williams. Enillwyd y raffl, rhoddedig gan Mrs J Eirlys Williams, gan Mrs Dilys Thomas. Diolchwyd i bawb gan Mrs Jane Jones a Mrs E Williams.

Yn ystod y cyfarfod cydymdeimlwyd â Mrs Mary Griffiths, cyn aelod o'r Clwb ar golli ei phriod yn ddiweddar.

Fe garai'r aelodau i gyd ddiolch o galon i Dr N Marren, Mr David Morris, Cefn Coch a Mrs Emyr Pritchard am eu rhoddion anrhydeddus tuag at y Clwb.

CARNIFAL: i'w gynnal ar Orffennaf 1af.

Gwahoddir: merch o Safon 3/4 i fod yn Frenhines; merch o Safon 1/2 i gynorthwyo'r frenhines; merch o ddosbarth 3 i fod yn Dywysoges; mab o dosbarth 3 i gynorthwyo'r Dywysoges.

Enwau, gyda 50c, erbyn Ionawr 31 i unrhyw aelod o'r pwyllgor. Bydd y cwrt yn cael ei ddewis mewn Noson Goffi.

DIOLCH: Dymuna Mrs Mary Griffiths a'r teulu, Fron Deg, Clwt y Bont, ddiolch o galon i'w ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau a'r cydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli priod, tad a thaid annwyl, sef Gwilym (Emma) Griffiths. Diolch arbennig i Tom y nyrs.

DYMUNA Eleri ac Eiriona Owen, gynt o 29 Stryd Newydd, ddiolch o galon i bawb am y llu cardium, anrhegion a phob dymuniad da a dderbyniasant pan yn dathlu eu pen-blwydd yn 21 oed ar Ionawr 9fed.

DYMUNA Mr John Williams, Morawel, 3 Cynfi Terrace, ddiolch yn gynnes iawn i'r teulu oll, ffrindiau a chymdogion am y caredigrwydd a gafodd tra yn aros yn Ysbyty Gwynedd a hefyd wedi dod adref. Diolch yn gynnes iawn.

DIOLCH: Dymuna Mr Sion Roberts, 47 Rhydfadog ddiolch i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am y caredigrwydd diffuant a gafodd tra yn Ysbyty Gwynedd a hefyd ar ôl dod adref. Diolch i'r meddygon a staff Ward Conwy am eu gofal a hefyd Dr N Marren.

Dymuna Mrs Eurwen Roberts ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cymorth a'r caredigrwydd a gafodd tra roedd Sion yn yr Ysbyty.

DIOLCH: Dymuna Owen a Rhian Jones, Dulas, 4 Stryd Fawr ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ganddynt ar enedigaeth eu mab bach, Geraint Wyn.

DYMUNA Brigid Hughes, Gwyrfa Terrace, Clwt y Bont, ddiolch o galon i'w theulu a'i ffrindiau oll am yr arian a'r presantau a dderbyniwyd ar achlysur ei phen-blwydd yn 21 oed ar Ragfyr 18fed.



Llun o Adran Sant Ioan, Deiniolen. Aelodau lleol ar wahân i un sydd wedi ymadael â'r ardal.

CYNGOR EGLWYSI: Ers cyhoeddi rhifyn diwethaf yr Eco cynhaliwyd tri chyfarfod dan nawdd y Cyngor. Roedd Eglwys Llandinorwig yn llythrennol orlawn ar gyfer y Gwasanaeth Cristingl a gynhaliwyd yno dan arweiniad y Canon Richard Jones ar nos Sul, 18fed o Ragfyr. Cyfranwyd eitemau i'r Gwasanaeth gan ieuenc-tid gwahanol eglwysi'r pentref, ac olrhiniwyd cysylltiad y Gwasanaeth arbennig hwn gyda Chymdeithas y Plant. Canolbwynt gweledol y Gwasanaeth oedd fflam y gannwyll fawr oleuedig, a daeth y Gwasanaeth i ben pan dywyllwyd yr adeilad cyn ei oleuo drachefn gan fflamau'r ugeiniau o ganhwyllau llai wedi eu goleuo o fflam y gannwyll fawr, gyda'r plant wedyn yn cael eu gosod gyda'u canhwyllau ynghyn i ffurfio siap croes.

Festri Disgwylfa oedd cyrchfan cynulliad teilwng am ddeg, bore Nadolig. Yma eto llwyddodd y Parch Eryl Blainey i hoelio meddylai y rhai oedd wedi gwneud yr ymdrech i droi i mewn ar wir ystyr yr Wyl a geni Tywysog Tangnefedd. Wedi neges bwrpasol, gweinyddwyd y Cymun gan Mr Blainey. Braf iawn oedd gweld nifer o blant yn yr oedfa — rhai ohonynt yn cydio'n dynn yn yr anrhegion rannwyd y noson cynt gan Sion Corn!

Y parch Ifor Williams fu'n llywio'r Gwasanaeth Dechrau'r Flwyddyn a gynhaliwyd yng nghapel Libanus, nos Lun, 2il Ionawr. Yn ôl ei arfer, pregethwyd yn gadarnhaol gan Mr Williams, a chafwyd annogaeth i lynu wrth ein ffydd mewn dyddiau o newid moesol a chymdeithasol. Cynorthwywyd yn y gwasanaeth gan y Parchedigion Eryl Blainey a John Pritchard.

Estynnir croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod nesaf dan ofal y Parch John Pritchard, ar nos Lun, 13 Chwefror, yn Festri Ebeneser. YSGOL GWAUN GYNFI DATHLIADAU'R NADOLIG: Rhaid oedd trefnu dau berfformiad o 'Ffatri Santa Clôs a Stori'r Geni a gynhaliwyd yn neuadd yr ysgol brynawn a nos Fawrth, Rhagfyr 13eg. Cymerwyd rhan gan yr oll o'r plant o ddosbarth y Babanod hyd at Safon IV. Tystiodd neuadd orlawn yr hwyr gynhesrwydd a dif-

fuantrwydd y perfformiad a'i gwnaeth yn un coliadwy iawn. Dymuna'r ysgol ddiolch am bob cymorth a help gafwyd gyda'r llwyfan a'r gwaith goleuo. Gwerthfawrogi yn fawr y casgliad teilwng wnaed yn ystod y ddau berfformiad.

Brynhawn Mercher, troes y cywair i fod yn un gwahanol! Cafwyd pantomeim 'Sindyrela' a chymerodd pob un o'r athrawon ran yn y perfformiad. Cafodd y plant a'r athrawon hwyl garw.

Yr un diwrnod ac ar ôl hir ddisgwyl, ymwelodd Sion Corn â'r ysgol. Cafodd groeso. Rhoddodd yntau i bob disgybl anrheg Nadolig oedd wrth eu bodd.

Prynhawn dydd Gwener cafwyd Disco gwyllt a swnllyd oedd wrth fodd y plant.

Ni fu Mrs Eurwen Roberts, cogyddes yr ysgol yn dda iawn yn ddiweddar 'ma. Ein dymuniad ni yma yw am iddi fendio'n fuan a chael llwyr adferiad.

Y SEINDORF: Yng nghyfarfod blynyddol y Seindorf a gynhaliwyd nos Sul, 15fed o Ionawr, pasiwyd i ail godi Pwyllgor Merched y Seindorf. Y mae angen arian i gael offerynnau i'r Seindorf a'r Band Bach.

Os oes rhywun â diddordeb, fe gynhelir Cyfarfod Cyhoeddus yn y 'Band Room' am 7 o'r gloch nos Fawrth, 7fed o Chwefror.

**OSMOND SHAW
DEINIOLEN**

**Gwerthu
a Thrwsio
Teledu Lliw Newydd
ac Fel Newydd
GWASANAETH
FFON 24AWR
LLANBERIS 870545**

WAUNFAWR

Gohebydd: Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr

CRONFA CANOLFAN WAUNFAWR: Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Rhagfyr:

£40: Mrs Williams, Dwyfor; £25: Mr R Edwards, Melin y Wig; £10: Mrs A Jones, Haulfryn.

Hefyd talwyd 2 wobwr ychwanegol o £10 i Mrs Jean Jones, Llwyn Onn a Mrs Jones, Eryri Wen.

CLWB BOWLIO: Yn ystod mis Rhagfyr mae'r Clwb Bowllo wedi bod yn cynnal cystadleuthau am y 'Cwpan Nadolig'. Enillwyd y gystadleuaeth sengl gan Mrs Carys A Jones gyda Jack Bilton yn ail, a chystadleuaeth parau gan Mrs Betty Griffiths a Mrs T A Thomas, gyda Mrs Margaret Jones a Mrs Margery Bilton yn ail. Cyflwynwyd tlysau i'r enillwyr. Enillodd Mr Alfie Jones y raffl. Mae'r Clwb yn dal i gynyddu a'r aelodau erbyn hyn yn cyfarfod dair gwaith yr wythnos, ar bnawn Mawrth, pnawn a nos lau. Croeso i aelodau newydd ymuno. SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod mis Rhagfyr o'r Sefydliad nos lau, y cyntaf o'r mis. Llongyfarchwyd Nicholas, mab Mrs Myra Ham ar gwblhau yn llwyddiannus y rhan gyntaf o'i yrfa yn yr Awyrlu, gan Mrs Pat Parry, y Llywydd; gadawodd Nicholas Ganolfan Hyfforddi yr Awyrlu yn Swinderby mis diwethaf.

Cymerodd yr aelodau ran mewn 'Beetle Drive' a threuliodd noson ddifyr pryd y cyflwynwyd gwobrau i enillydd pob ras. Enillwyd raffl y noson, rhodd gan Mrs Myra Ham, gan Mrs Duncan.

Bydd y cyfarfod nesaf ar y 5ed o Ionawr, pan fydd yr aelodau yn mwynhau cinio Nadolig yng Ngwesty'r Saracens Head, Beddgelert. Bydd bws yn gadael Waunfawr am 7 o'r gloch ac yn codi teithwyr ar y ffordd.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL: Nos Lun, Rhagfyr 12 daeth cynulliad da i'r Ganolfan i glywed Eifion Glyn a Tecwyn Evans yn sôn am eu dyletswyddau dyddiol yn y rhaglen, 'Diwrnod o Waith'. Llywyddwyd gan Mrs Pat Parry, Ffridd Felen a thalwyd y diolchiadau gan Dr A L Miles. Bu cyfar-

fod cyntaf y flwyddyn newydd nos Lun, Ionawr 9 pan y cafwyd darlith hynod ddifyr gan yr Athro Bedwyr Lewis Jones ar 'Enwau Lleoedd'. Soniodd am darddiad a chefnidir enw sawl tyddyn a chae yn ardal Waunfawr. Llywydd y noson oedd Mr Iolo Huws Roberts, a oedd wedi cyfansoddi englynion i gyfarch y siaradwr. Talwyd y diolchiadau am noson addysgiadol iawn gan Mr R Gwynn Davies, Bryn Eithin. Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, Ionawr 30 pan y dangosir ffilm ar fywyd a gwaith y diweddar Syr Thomas Parry Williams a'r llywydd fydd Mr Emlyn Davies, Bodwyn. Disgwylir cynulleidfada deilwng i'r noson hon hefyd.

CLWB GWYRFAL: Cafwyd dau gyfarfod arbennig o'r Clwb cyn y Nadolig.

Ar Ragfyr 8 mwynhawyd cinio Nadolig yn Nhy Golchi gyda Mr Rol Williams yn wr gwadd. Rhoddodd sgwrs ddifyr ar hen gymeriadau a hanesion lleol. Ef hefyd oedd yn arolygu rhannu anrheg i bob aelod. Diolchodd y llywydd, y Parchedig Canon B Thomas i bawb oedd wedi cyfrannu i'r raffl — yn enwedig am haelioni Mrs Griffiths, Swyddfa'r Post, ac am ei diddordeb parhaol yn y Clwb.

Rhagfyr 15: Ar wahoddiad y pri-fathro a staff yr ysgol bu aelodau'r Clwb yno yn mwynhau cyngerdd a gwasanaeth carolau gyda'r plant. Mae hwn yn achlysur blynyddol ac yn cadarnhau y cysylltiad cynnes rhwng yr ysgol â Chlwb yr Henoed, ac fel arfer roedd y cyngerdd o safon uchel o dan arweiniad Mrs Eames.

Ionawr 5, 1989: Llywyddwyd cyfarfod cyntaf flwyddyn gan Canon Thomas, gyda dymuniadau am Flwyddyn Newydd Dda i ni ac i'r rhai oedd yn methu dod. Y siaradwr oedd Mr William Evans o Langefni, cyn-swyddog Adran Safonau Masnach yng Ngwynedd. Mae diddordeb mawr gan Mr Evans yn myd natur a dangosodd ffilmiau gwych o adar ac anifeiliaid

gwyllt yn eu cynefin, gyda sylwebaeth ddifyr. Hefyd ar rai o adeiladau hanesyddol Ynys Môn a'r ynysoedd cwmpasog. Diolchwyd i Mr Evans gan Mrs Idris Jones.

APÊL EISTEDDFOD YR URDD, 1990: Ar nos Wener, Rhagfyr 16 cynhaliwyd Gyrfu Chwist lwyddiannus iawn yn y Ganolfan. Diolchwyd i bawb oedd yn bresennol gan Mr Edgar Owen, am eu cyfraniad i'r noson ac yn arbennig i Mr O T Jones, ac i bawb a gyfrannodd mor hael tuag at y gwobrau a'r raffl, ac i'r pwyllgor am y lluniaeth.

Cyfrif hanner amser oedd merched: Mrs Thomas, Carmel; dynion: Mr John Cadwaladr, Waunfawr.

Enillwyr y noson oedd Eunice Jones, Penrhosgarnedd; Dafydd Owen, Penisarwaun; E V Williams, Bangor; John Cadwaladr, Waunfawr; Bet Morgan, Bethel; Gillian Wyn, Waunfawr; W R Jones, Felinheli; Gareth Jones, Waunfawr; O G Jones; Glyn Owen, Bangor; Mrs A Thomas, Waunfawr; Mr R Rowlands, Waunfawr.

Booby: Edgar Owen, Emyr Evans, J G Roberts, Carmel.

Enillwyd y raffl gan Mr O T Jones, Mr Peter Evans a Mrs Jones, Penrhosgarnedd.

Cynhaliwyd 'Jumble Sale' yn 'Feed My Lambs' dydd Sadwrn, Ionawr 14 a gobeithir cynnal un eto yn y dyfodol agos yng Nghanolfan Noddfa Caernarfon. Ar Fawrth 1af bydd cyngerdd yn y Ganolfan gyda phlant ysgol Waunfawr a 'Lleisiau'r Gweunydd'.

Cynhelir y pwyllgor nesaf yn y Ganolfan, nos Fercher, Chwefror 8fed am 7 o'r gloch.

YR URDD: Ail ddechreuodd tymor yr Urdd ar Ionawr 4ydd gyda noson fywiog o Fingo Geiriol. Gemau hefyd a gafwyd ar Ionawr 14eg, ac ar Ionawr 18fed bu'r Adran yn nofio yn y Ganolfan Hamdden.

Cofiwch fod yr Eisteddfod Cylch ar ddydd Sadwrn, Mawrth 3ydd, ac os bydd unrhyw un o'r aelodau eisiau cystadlu'n unigol, mae'r holl fanylion i'w cael gan Mrs Beryl Jones, Dôl y Coed.

Bydd croeso hefyd i unrhyw aelod fynd ar wyliau i Wersyll

Llangrannog ar Orffennaf 7fed hyd 14eg. Cost yr wythnos yw £84.50 a dylid rhoi'r enwau i Mrs Beryl Jones cyn gynted ag sydd bosibl. ADREF O'R YSBYTY: Gobeithio bod Mrs Peter Evans, Preswylfa, Mrs Slaven, Tref Eilian a Mr Howie Edwards, Anneddle yn dal i wella ar ôl dod adref o'r ysbyty yn ddiweddar.

YN YR YSBYTY: Anfonwn ein cofion cynhesaf at Mrs Sylvia Jones, Pen-y-Graig; Mrs Williams, Tegannedd; Mrs Lloyd Williams, Bryn Meredydd; Miss Catherine Hughes, Dolafon; Mr David Jones, Lynfod a Mrs Roberts, Dol Erddi, sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd. Mae Mr Kevin Roberts, Swyn-gwynt yn gwella yn yr ysbyty ar Ynys Manaw. ar ôl cael damwain car yno. Anfonwn ein cofion ato, a gobeithio y gwelwn ef adref yn fuan iawn.

Cafodd Mrs Evelyn Anderson, Trem Arfon; Mr John Huws, Argoed; Mrs Griffith, Llys Helen a Mrs Jane Roberts, Glaslyn ddamweiniau yn ddiweddar. Gobeithio eu bod yn gwella.

Gobeithio bod Mrs Owen, Tref Eilian yn gwella ar ôl cael ei tharo'n wael yng nghartref ei mab ar ddydd Nadolig.

DIOLCH: Dymuna Mrs Evelyn Anderson ddiolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am y caredigrwydd a dderbyniodd ar ôl cael damwain.

Dymuna Mrs Grace Griffith, Tan 'Rallt, ddiolch am y cariau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 90 oed.

Dymuna Mr a Mrs O T Jones, Bryn Gwenallt, ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniasant ar achlysur dathlu eu Priodas Ruddem yn ddiweddar.

LLONGYFARCHIADAU i'r canlynol am fod yn llwyddiannus yn yr arholiadau piano.


Gradd 1: Ffion Eleri Edwards, Melin y Wig; Ceirion Rhys Williams, Bryn Meurig.

Gradd 4: Helen Clough, Ynysoedd.

Gradd 5: Gareth Davies, Nant y Mynydd.

Llongyfarchiadau i Kristy Jones, Cynefin ar lwyddo yn yr arholiad fflwt Gradd 2.

FFENESTRI UPVC DRYSAU MEWN GWYN NEU MAHOGANI



Esiampl o bris a gosod

Crefftwyr profiadol yn eu gosod

Ffoniwch am bris i

J R PRITCHARD, 14 Glanrafon, Bontnewydd

Ffôn: Caernarfon 3507 (dydd neu gyda'r nos)

Croesawn ymholiadau gan fasnachwyr

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR



DEWIS EANG O WELYAU SENGL A DWBL
DEWIS EANG O '3 PEICE SUITES'
LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'
GWAITH CONTRACT
5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI
MEWN STOC - ALLWCH CHI
FFORDDIO PRYNU O BATRYMAU?

Rhif Ffôn y Siop yn ystod oriau agor:
WAUNFAWR 291

AR AGOR
9-7pm
9-5pm Sadwrn
AR GAU
SUL,
MERCHER.

LLONGYFARCHIADAU i Sandra Roscoe, Ty Ni ar ei dyweddïad â Nigel Griffith o Lanrug;

i Sandra Jones, Graianfryn ar ei dyweddïad â Neil Roberts o Frynrefail;

i Brian a Shirley Parry, Stad Pant-Waun ar enedigaeth mab bychan, Dafydd Hywel, brawd bach i leuan ac wyr bach i Mr a Mrs Huw Parry, Bro Waun;

i Gerald ac Eira, Bod Gwilym, ar enedigaeth merch fach, Nicola Wyn, a llongyfarchiadau i Mrs N Roberts, 2 Dôl Erddi ar ddod yn hen nain;

i Llywela a Dafydd Davies, Tref Eilian, ar enedigaeth merch fach, Claire Louise, chwaer fach i Diane, Ceryl a Ffiona, ac wyres fach arall i Mr a Mrs Gwynedd Williams, Bro Waun;

i Delyth a Michael, Tan-y-coed ar enedigaeth mab bach, brawd bach i Elgan ac wyr bach i Mr a Mrs T H Williams, Llwydiarth;

i Eirian ac Elwyn Jones, Dôl Erddi ar enedigaeth merch fach, chwaer fach i Dilwyn a Diane; ac i Mrs Helen Jones, Dôl Erddi ar ddod yn nain i'r ferch fach ac yn nain i Eilian Gwynedd — mab bach a anwyd i'w mab, Llifton a'i wraig Delyth yn ddiweddar;

i Mr a Mrs Thomas J Griffith, Ty'n y 'Ronnen ar fod yn daid a nain unwaith eto. Ganwyd merch fach i'w merch, Helen a'i gwr, Len; i Gwynant Pierce, Nant Bach ar gyrraedd ei ben-blwydd yn ddeunaw oed.

BARBACIW YR ANTUR:

Penderfynwyd cynnal y barbaciw blynyddol ym mis Gorffennaf eleni, ar noson wahanol i Râs yr Antur. Y dyddiad i'w gofio yw nos Sadwrn, Gorffennaf 15fed, y nos Sadwrn cyn i'r ysgol gau! LLONGYFARCHIADAU i'r canlynol ar lwyddo mewn arholiadau cerddorol:

Ffliwt, Gradd 4: Elin Gwilym, Llidiart Wen; Leanne Mallinson, Dolwar Fach.

Ffliwt, Gradd 5: Alaw Meleri Jones, Rhandir Mwyn; Ella Jones, Graianfryn (Anrhydedd).

Sacsaffôn, Gradd 5: Osian Gwynedd, Nant (Teilyngdod).

DIOLCH i brifathro, staff a phlant yr ysgol am Wasanaeth Nadolig arbennig o dda.

LLONGYFARCHIADAU i Mrs

Meira Turner, Collfryn ar fod yn llwyddiannus mewn dwy gystadleuaeth aadrodd yn Eisteddfod Betws yn Rhos;

i Alun Williams am ddod yn ail yn y gystadleuaeth cân werin;

i Alun ac Wmffra am ddod yn ail yn y gystadleuaeth ddeuawd yn yr un Eisteddfod.

CLWB Y BLAID: Dyma'r enillwyr:

1. Morus Elfryn; 2. Glenys Jones; 3. Mrs K Hughes.

MERCHED Y WAWR RHANBARTH ARFON

Nos Wener, Ionawr 13 yn Theatr Seilo, Caernarfon, yr oedd yna gynulleidfa dda yn gwyllo Merched y Wawr, Tregarth yn "Cynnal y Fflam" — rhaglen nodwedd am Yr Esgob William Morgan a'i gyfieithiad o'r Beibl. Cynlluniwyd y rhaglen gan y merched eu hunain, a chynhyrwyd gydag arddeliad gan Rhiannon Evans. Diolch yn fawr iawn iddynt am noson a fwynhawyd gennym i gyd.

Ym Mhlas Menai, gyda'r nos Chwefror 3ydd mae gennym gyfarfod diddorol arall, dan nawdd yr Is bwyllgor Chwaraeon. Yno disgwylwn weld amryw o'r aelodau yn gwneud campau gan fod llawer ohonynt wedi eu noddi gan eu cyfeillion. Hefyd, yno fe gyflwynir y Gwpan i'r gangen a gynlluniodd y Llyfr Lloffion gorau. Waunfawr enillodd llynedd. Y beirniad yw Iona Roberts, Edeym. Ac i roi mwy o fwynhad i chi mae yna Swper Bwffe yn cael ei baratoi ar eich cyfer (£3.50). Gobeithio y daw llu o ferched y Rhanbarth i'r cyfarfod hwn.

'Babs' yn Eisteddfod Dyffryn Conwy

Un o atyniadau pennaf Arddangosfa Gwyddoniaeth a Thechnoleg Prifwyl Dyffryn Conwy yn Llanrwst eleni fydd 'Babs', car modur enwog a phwerus y Cymro John Godfrey Parry Thomas.

Dyma'r car a dyma'r gyrrwr a dorrodd record byd am eu cyflymdra, a hynny ddwywaith ar ddeudydd yn olynol, ar draeth Pendein yn 1926.

Y flwyddyn wedyn lladdwyd Parry Thomas wrth y llyw. Er pob dyfalu, ni wyr neb i sicrwydd pam y llithrodd y car wysg ei ochr a thro i a'i din dros ei ben.

Wedi'r drychineb claddwyd 'Babs' yn nhywod Pendein ac yno y bu am ddwy flynedd a deugain, yn anghofiedig bron ac eithrio gan yr ardalwyr, nes i Owen Wyn Owen, darlithydd-beiriannydd o Gapel Curig, ei ddwyn eilwaith i olau dydd.

Bu gwaith adnewyddu maith a manwl ar yr hen gar, ond fe'i gwelir eto yn ei holl ogoniant yn Llanrwst — yn deyrnged i'w ddewin o yrrwr gynt, ac i fedr a brwdfrydedd a dyfalbarhad ei berchennog presennol.

I'r Iarll Louis Vorrow Zborowski y perthynai'r car yn wreiddiol. Yr Iarll hwnnw a'i beiriannydd, Clive Gallop, oedd gwneuthurwyr cerbydau enwog y Chitty-Chitty-Bang-Bang. Ac wedi llwyddiant y rheini troesant ati yn 1923 i lunio car rasio newydd, a gosod ynddo injan awyren Liberty V-12, 26.9 litr, gyda gêr boc Benz pedair gêr ac echel flaen Grand Prix Mercedes.

Fe'i gyrrid â chadwyn allanol. Galwyd ef yn "Higham Special" ar ôl cartref yr Iarll yng Nghaergaint.

Dyma'r cawr o gar a brynodd J G Parry Thomas am £125 i'w ail-fedyddio'n 'Babs', a'i addasu i ymgiprys am record cyflymdra'r byd yn ogystal â rasio yn Brooklands.

Ar draeth Pendein ar 27 Ebrill 1926 torrodd Parry Thomas record Henry Segrave (a'i Sunbeam V-12) gan ychwanegu 16 milltir yr awr at y cyflymdra.

Yn ddiweddarach yn 1927 daeth Malcolm Campbell yn bencampwr gyda'i Bluebird, injan Napier — 174.883 milltir yr awr — ac wrth geisio adfeddiannu'r record oddi arno ef yn yr un flwyddyn y lladdwyd Parry Thomas.

Pan gododd Owen Wyn Owen 'Babs' o'i fedd tywodlyd yn 1969 cafodd fod yr hen gar wedi cadw'n rhyfeddol o ystyried yr amgylchiadau. Roedd rhwd yn ei goluddion, bid siwr, a llawer o banelau'r corff wedi dirywio, ond roedd ei berchennog newydd yn ffyddiog y gallai gael 'Babs' i fynd eilwaith o fewn dwy neu dair blynedd.

Tynnwyd yr hen ffrâm yn gareiau, ei sythu, ei glanhau a'i pheintio. Bu'n rhaid gwneud câs newydd i'r gêr boc a threuliau'r clyts, ond llwyddwyd, serch

Parhad ar Dudalen 12

Aled Jones

Peiriannydd
Gwres Canolog
a Phlymio

4 Bryn Eglwys
Penisarwaun
Ffôn: Llanberis
871047

SIMNEIAU GWAEL? CRACIAU? MWG A HOGLA' TARO PERYGLUS?

Cysylltwch â Dave Wood

'INSULAFUE'

Yr Arbenigwr ar leinio simneiau

FRON HEULOG, DINORWIG
Ffôn: Llanberis 871376

Gwesty Dolbadarn LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser gan
Aneuryn a Jeanette Jones a'r staff.

W.J.GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANOLOG

PANT TIRION, LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3248

Gosodwyr
Nwy
Cofrestedig
Corgi



Aelod o'r
Association of
Plumbing and
Mechanical
Services
Contractors



Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd
DEINIOLEN
Llanberis 870484

* Bysus o 12 i 53 sedd
* Teithiau Lleol a
Thramor
* Gwaith Contract
* Telerau arbennig i
bensynwyr, myfyrwyr
a phlant ysgol

ECO'R IFANC

BREUDDWYDION

Clywsom leisiau rhai o blant Ysgol Gynradd Llanrug ar y radio yn ddiweddar. Sôn yr oeddent am eu breuddwydion. Dyma gyfle i chi rannu rhai o'r breuddwydion hynny:

Breuddwydio

"O! mam, oes rhaid i mi fynd i'r gwely."

"Oes wir, mae hi'n hanner awr wedi deg."

"O'r gore mam."

Aeth Emyr i mewn i'r gwely, rhoi'r lamp ymlaen a dechreuodd ddarllen. Mewn eiliad roedd Emyr yn cysgu'n drwm a'r llyfr ar dudalen 68.

Roedd Emyr yn breuddwydio am wlad a losin. Dyma'r stori:

* * *

Planed y tewdra oedd y siop fwyaf a welodd Emyr. Planed gyda siopau losin a dim arall! Cerddai Emyr i mewn drwy wali-au mawr candi coch a gwyn oedd yn amgylchynu'r blaned. Siâp siocled 'eclair' oedd y blaned.

Yn sydyn stopiodd sowldiwr Emyr a gofyn beth oedd ei neges.

"Pa neges y sowldiwr gwiri-on?"

"Yr un est ti allan i'w nôl."

"O ia rydw'n cofio rwan," dywedodd Emyr heb wybod am beth ar y ddaear y siaradai amdano. Roedd Emyr yn gwybod yn iawn ni fasai yn cael mynd i mewn i'r wlad heb drwydded.

Roedd y sowldiwr yn gwisgo het M & M a chôt allan o losin du. Coesau Twik a breichiau marshmalo ac roedd ei wyneb allan o extra strong mints. Cerddodd Emyr ymhellach ac roedd y sowldiwr yn edrych fel spiral stick. Pan gyrhaeddodd dre o'r enw Cwmtewdraeth, roedd pawb yn gwisgo yr un fath o ddil-lad, hetiau coch a chôt losin du, coesau Twik a breichiau marsh-malo ac roedd ei wyneb allan o extra strong mints.

Aeth Emyr i mewn i siop o'r enw W H Fati. Roedd y sillfoedd yn llawn losin. Smartis, Spiral sticks, polos, Opal Fruits, reffreshars, sherbert, love harts, marsh-malo ac yn y blaen. Yna sylweddolodd fod popeth am ddim. Dim rhyfedd fod pawb yn dew. Roeddent yn byw ar losin. Cafodd Emyr reffreshers, polo a Twik.

Gofynnodd Emyr i rywun oedd yn pasio,

"Lle medra i gael rhywle i aros?"

"Draw yn fanacw."

Aeth Emyr yn ei flaen tan gyrhaeddodd y gwersyll. Yr enw oedd Fawlti Fatis. Roedd y gwersyll wedi ei wneud allan o losin. Aeth Emyr i mewn i'w lofft yn y gwersyll. Roedd popeth wedi ei wneud allan o losin.

Bore trannoeth agorodd Emyr y ffenest i'w dylluan siwgr. Aeth yn ôl i'w wely. Yn sydyn clywodd swm sgrechian yn dod o rywle odano. Aeth Emyr i lawr y grisiau toblerôn. Roedd ystafell gudd yn rhywle. Aeth Emyr i chwilio amdani. Yn sydyn disgynodd i lawr drws cudd yn y llawr.

"O rydwi'n teimlo fel hwyaden heb ddwr (ar ben fy hun). Aaaaaawwww! mae 'mhen ôl i yn brifo hefyd."

Roedd Emyr mewn ystafell fawr. Roedd hi fel bol buwch yno.

Yn sydyn daeth llais cras o rywle a dychrynodd ei enaid. Yna gwelodd olau gwan yn dod drwy dwll yn y wal, yn sydyn disgynnodd drwy'r wal i mewn i ystafell fach gyda un o'r ffatis yn bwyta losin. Roedd bechgyn o'r ddaear mewn rhyw gornel gyda gwydr o'u cwmpas. Roedd y ffatis yn anelu rhyw fath o ynnau at y bechgyn. Cerddodd Emyr yn nes ac yn nes at y ffatis, yn sydyn trodd un o'r ffatis ato gan anelu ei wn ato.

Gwn hir o marshmalo gyda botymau coch, glas a gwyrdd arnynt. Saethodd y ffati at Emyr. BANG! Ond ni ddigwyddodd dim. Roedd y gynau marshmalo yn rhai gwael a dim yn gweithio.

Tarodd Emyr ben un o'r ffatis gyda Spiral stick a disgynnodd yntau yn anymwybodol.

"ROWND 1," meddai'r cloc cwcw.

Roedd un o'r ffatis ar ôl. Tarodd Emyr y ffati ar ei ben ôl gyda reffresher. Yna cododd y ffati ar ei draed eto a cheisio taro Emyr. Yna gafaelodd Emyr mewn tiwb smartis a'i daro. Disgynnodd y ffati ar lawr. Rhyddhaodd Emyr y caethweision a cherdded allan drwy'r wal.

Cawsai hyd i raff, taflodd Emyr y rhaff i ben y twll a thynnodd ugain o fechgyn i ddiogelwch. Pan gyrhaeddasant y gwersyll rhoddodd un o'r bechgyn fedal aur iddo i gofio am yr hyn a wnaeth. Yna daeth un o'r ffatis ato ag anelu gwn smartis arno a, BANG!

Deffrôdd Emyr bore trannoeth yn pendroni. Roedd ganddo fedal aur wedi ei ludo ar ei byjamas.

A oedd Emyr wedi breuddwydio'r cwbl. Ond roedd ganddo fedal, roedd yn rhaid iddo fod yn wir.

Breuddwyd oedd o ynteu ...
Cerys Parry

**CEFNOGWCH EIN
HYSBYSEBWYR**

'Breuddwydio'

Rhedais, roedd swm fy nhraed yn atseinio'n swnllyd yn erbyn y llawr. Roedd yn dywyll fel bol buwch, ac yn ddistaw ofnadwy — eto roeddwn yn teimlo fod rhywbeth drwg, drwg iawn ar ddigwydd, ddigon agos. Es i fewn drwy ddrws y 'TANGO'. Clwb nos yng nghanol y dre oedd. Ah! agorais y drws a daeth lliwiau mawr, llachar i nghyfarfod. O! roedd hyn yn ormod. Roedd swm chwibanu uchel, ond eto chwibanu isel. Daeth swigod mawr gwyn fel pêl-droed o flaen fy llygaid ac fe ffrwydrodd! Ie, jest ffrwydro a pop bach! Rhedais allan i'r stryd, ac es i Stryd y Faenol, lle roedd fy ffrind yn byw, nid oeddwn awydd mynd yn ôl i'm fflat ar ben fy hun. Ar y ffordd gwelais gysgod, cysgod dyn mewn côt a choler uchel a het wedi ei thynnu'n isel, fel 'gangster'! Dechreuais banicio. Curais ar ddrws y ty, rhif 14, a daeth llaw allan, llaw fechan, wen, esmwyth, ac ewinedd hir, disglair — wedi eu lliwio yn binc golau ofnadwy, prin y gellid gweld y lliw. Estynais i fy llaw allan, ac roedd yn ddu fel lludw efo baw. Dwn i ddim pam estynais fy llaw allan, ond yr oeddwn yn teimlo fel yna. Rhoddodd y llaw fechan oriad yn fy llaw a thynnodd ei llaw yn ôl, a chau'r drws. Estynais i fy llaw ataf a rhoi'r goriad yn fy mhoced. Rhedais i'r siop sglodion ond yr oedd wedi cau, mor fuan â hyn! Wel yr oedd hi yn 9 o'r gloch. Estynais y goriad allan ac yr oedd wedi troi'n siswrn, trwm. Agorais y drws a, a, a... wel, roedd pobman yn ddistaw a thywyll. Es allan a chau'r drws ar fy ôl. Lwcus ei fod yn agored! Estynais y siswrn allan, ac yr oedd wedi troi'n falwn. Chwythais. Aeth yn anferthol! gafaelais yn dynn arno ac aeth y balwn i fyny ac es innau i fyny hefyd. Aeth y balwn a fi i'm fflat, ac es i drwy'r drws ac i'r stafell flaen.

'SYRPREIS SYRPREIS'

Rhoddais y golau ymlaen, a dyna lle roedd fy ffrindiau a'm teulu i gyd, a chacen pen-blwydd anferth yn y canol!

'PEN-BLWYDD HAPUS'

Catrin Angharad Hughes

Breuddwyd

Dechreuais yr injan yn barod i glywed y gwn yn tanio. Roeddwn wedi mynd trwodd i'r ffeinal mewn rasmus rali. Roeddwn bron yn siwr y buaswn yn ennill am fod yr un gorau un wedi sleidio o'r lôn. Cafodd amser araf iawn o 30.15 munud. Yr amser i guro oedd 26.51 munud, car 'Toyota' oedd yr un oedd yn curo. Sierra Cosworth oedd fy nghar i. O'r diwedd taniodd y gwn fel balwn yn byrstio ac i ffwrdd a fi ar gant milltir yr awr, rownd y tro cyntaf fel mellten. Teimlais tu ôl y car yn llithro ar hyd y llawr nes roedd mwg o faw yn tasgu i'r awyr, fyny'r bryn ar bron iawn gant milltir yr awr ac i lawr yn gyflymach fyth. Arafu'n ôl i 50 milltir yr awr wrth fynd rownd y tro gwaethaf un ac yn ôl i 150 milltir yr awr. Mewn 10 munud arall roeddwn yn croesi'r llinell orffen. Roeddwn wedi ennill ond y munud nesaf deffrais yn fy ngwely, dim ond breuddwydio oeddwn!

Iwan Owen

Breuddwyd

Un tro fe gefais freuddwyd ac yn y freuddwyd honno roeddwn yn gyrru mewn 'Grand Prix'. McLaren oedd fy nghar i ac fe roeddwn yn gyrru yn erbyn goreuon y byd.

Fy nghar i oedd ar y blaen a char melyn Nelson Piquet yn ail. Os buaswn i yn curo'r rās hon fe fuaswn wedi ennill pencampwriaeth y byd.

Ar ôl ugain o lapiau fe basiodd Ayrton Sena, Piquet fel milgi yn rhedeg ar ôl ysgyfarnog, ac roedd yn dechrau fy nal i. Roedd hon yn un o rasmus mwyaf cyffrous y tymor.

Yna dechreuodd Nigel Mansell ddal Sena. Ond fy nghar coch a gwyn i oedd yn dal ar y blaen. Teimlais yn nerfus. Dim ond dwy lap i fynd a doedd gan y ddau arall ddim gobaith fy nal i erbyn hyn. Pasiâs yr arwydd oedd yn dweud pa lap yr oeddwn ami. Hon oedd fy lap ddiwethaf. Roeddwn yn mynd i groesi'r llinell pan alwodd mam arnaf,

"Tyrd rwan, mae'n amser codi."

Mathew Williams

GWERSYLL GLAN-LLYN


DYDDIADAU'R WYTHNOSAU

Wythnos	Dyddiad	Cwrs	Oedran
Wythnos 2	Gorffennaf 8-15	Cymry Cymraeg	12-14
Wythnos 3	Gorffennaf 15-22	Cymry Cymraeg	12-14
Wythnos 4	Gorffennaf 22-29	Cymry Cymraeg	12-14
Wythnos 5	Gorffennaf 29-Awst 5	Cwrs Iaith	Dosbarth 2
Wythnos 6	Awst 5-12	Cymry Cymraeg	11-13
Wythnos 7	Awst 12-19	Cwrs Iaith	Dosbarth 3, 4 a 5
Wythnos 8	Awst 19-26	Cymry Cymraeg	13-15
Wythnos 9	Awst 26-Medi 2	Cymry Cymraeg	15+

Y Pennaeth (Gwersyll Haf), Gwersyll Glan-llyn, Llanuwchllyn, Y Bala, Gwynedd LL23 7ST.

CORNEL Y PLANT IAU Lliwiwch y Llun

Beth am anfon eich llun i'r 'gornel' ar ôl ei gwblhau, neu'n well fyth ysgrifennwch stori am y llun. Bydd GWOBR i'r ddau gystadleuydd gorau.



CORNEL JÔCS

Cnoc! Cnoc!
Pwy sy' 'na?
Pam
Pam pwy?
Pam wyt ti'n gofyn pwy sy' 'na?

Beth sy'n felyn, yn gwisgo clogyn
ac yn hedfan drwy'r awyr?
Swperbanana 2!!!

Beth ydych chi'n galw banana
sy'n mynd i'r ysgol?
Disgybl! Na! Na! Na! Na! Na!

Doctor! Doctor! 'Dwi angen sbectol newydd.
Dwi'n gwybod Mrs Jones! Y cigydd ydw i!

I ble bydd llong flinedig yn mynd?
I orwedd ar wely'r môr!

Beth ydy enw pennaeth brigâd dân Gwlad Pwyl?
Ifan Watsalosgi!

Mam, fydd fy mhwdin i'n hir?
Na fydd Wil bach, mi fydd yn grwn fel pwddin pawb arall.

Hei Barbwr! Faint 'da chi'n ei godi am dorri gwallt?
Punt union, Giaffar.
O ia, faint am shêf?
Saith deg pump ceiniog, giaffar.
Wel, shiafia 'mhen i 'ta!

Beth sy'n ddu a gwyn, yn bwyta pysgod, ac yn byw yng nghanol y jyngl?
Dydw i ddim yn gwybod, sgweiar.
Pengwyn ar goll!

GWERSYLLLOEDD HAF YR URDD 1989

Mae'r manylion am Wersylloedd a Chyrsiau Haf yr Urdd yng Nglan-Llyn a Llangrannog ym 1989, eisod wedi eu cyhoeddi. Pris wythnos lawn yw £84.50, sy'n cynnwys pedwar pryd y dydd, defnydd o'r holl offer a chymryd rhan yn y gweithgareddau amrywiol sydd gan y gwersylloedd i'w cynnig. Yn Llangrannog mae saith wythnos i Gymry Cymraeg a thair wythnos o gyrsiau i rhai sy'n dysgu Cymraeg. Tra yng Nglan-Llyn mae chwech wythnos i'r Cymry Cymraeg a pythefnos o Gyrsiau Iaith.

Mae lle i tua 150 aros yng Nglan-Llyn bob wythnos a thua 200 yn Llangrannog.

Ers cynnal y gwersyll haf cyntaf yn Llanuwchllyn ym 1928 y mae miloedd o blant a ieuencid Cymru wedi cyfarfod â'i gilydd yng Ngwersylloedd yr Urdd, ffactor gymdeithasol bwysig iawn ym mywyd Cymru.

Erbyn heddiw mae tua 15,000 o blant a ieuencid yn aros yng Ngwersylloedd yr Urdd bob blwyddyn.

DYDDIADUR HAF 1989

CWRS IAITH	Mehefin 16-23	Dysgwyr Cynradd
WYTHNOS B	Mehefin 23-30	Cymry Cymraeg Cynradd
WYTHNOS 1	Mehefin 30-Gorffennaf 7	Cymry Cymraeg Cynradd
WYTHNOS 2	Gorffennaf 7-14	Cymry Cymraeg Cynradd
CWRS 3	Gorffennaf 14-21	Cwrs Iaith Dosbarth 1 Uwchradd
WYTHNOS 4	Gorffennaf 21-28	Cymry Cymraeg Cynradd/ Dosbarth 1 Uwchradd
CWRS 5	Gorffennaf 28-Awst 4	Cwrs Iaith Dosbarth 1 Uwchradd
WYTHNOS 6	Awst 4-11	Cymry Cymraeg Cynradd
WYTHNOS 7	Awst 11-18	Cymry Cymraeg Cynradd
WYTHNOS 8	Awst 18-25	Cymry Cymraeg Cynradd/ Dosbarth 1 Uwchradd

Am ragor o fanylion neu geisiadau cysylltwch a:-
**Y PENNAETH,
GWERSYLL YR URDD,
LLANGRANNOG,
LLANDYSUL,
DYFED.
Llangrannog: (023 978)
473**

POLCADOTS

Y Gwalch

Roeddwn wedi mynd i gyfarfod Siôn i dref yn swydd Efrog, ar ôl iddo gwblhau blwyddyn arall o astudio'r gyfraith yn ei goleg. Ar ei therfyn yr oedd yn gorfod mudo o'r neuadd a gwneud trefniadau eraill ar gyfer ei loches y flwyddyn ganlynol. O ganlyniad yr oedd yn orfodaeth arno wneud trefn ar ei eiddo a llusgo ei holl drugareddau adref ar draws gwlad.

Doedd ganddon ni ddim ond egwyl fer rhwng dwy drên i hel y pethau at ei gilydd a chael llymaid i'n cynnal, ac yr oedd hi wedi mynd yn rās yn y diwedd i ddal y trên cyflym o Newcastle i Gaergybi.

Mae'n syndod beth â all rhyw hogiau ei gasglu mewn blwyddyn ar estron dir, a buan y gwelsom ein bod yn brin o fagiau. Daethpwyd o hyd i rai plastig drwy fawr berswad, a chyda casgliad o'r rheiny yn crogi arnom fel brech, yr oeddem o'r diwedd yn disgwyl ar y gongl am y cerbyd a logwyd i'n cludo i'r orsaf.

Roedd y gyrrwr yn cyfaddef, wrth geisio trefnu'r llwyth yn y pen ôl, mai hwn oedd y casgliad symudol mwyaf amrywiol ac anhylaw y galwyd arno ei drin erioed, ac er mwyn ceisio symud mymryn ar ei feddwl tra'r oeddem ar ein taith, mentrais sôn fy mod wedi trigo am gyfnod yn y swabia rheiny adeg y rhyfel, ac fy mod wedi canfod y trigolion yn rhai croesawus a charedig tros ben.

"Mi fûm innau yn Amsterdam," meddai.

"Fuoach chi?" medden ninnau gan edrych ar ein gilydd, ac mae'n siwr y buasem wedi cael yr afael rydd drwy ei adael hefo'r argraff honno.

"Ochr Caergybi iddo fo yr ydan ni'n byw," meddwn wedyn, ond wnaeth hynny ddim ond ei daflu i fwy o benbleth, ac erbyn hynny roeddem ar gyrion yr orsaf. Ond chwarae teg, cynigiodd gario'r beichiau, a rhag rhoi'r argraff mai pobl grintachlyd ydyw trigolion yr Iseldiroedd, rhoddodd Siôn gil drwn iddo am ei drafferth.

Roeddem, erbyn gweld, mewn llawn pryd am y trên. Cawsom amser i edrych o'n cwnpas ac ail drefnu'r sospeni ac offer byw. Ond pan ddaeth y trên o'r diwedd, cawsom drafferth i ganfod corneli i roi'r holl fagiau o gyrraedd pennau a thraed y teithwyr eraill. Doedd yna fawr o led chwaith yn y silffoedd uwchben, mae'n rhaid dweud, a chawsom drafferth anhygoel i stwffio un hafysac i'w le. Sylwais fod hwnnw yn union uwchben merch bur ddeniadol yn gwisgo blows wen wedi ei gorchuddio â pholcadots.

Roeddem yn ein llongyfarch ein hunain dan fwyta cyfleth fel yr oedd y trên yn rhuthro drwy'r twnel tri munud hwnnw o dan y Pennines. Ond ar hynny, teimlais bwniad yn f'ysgwydd, a phwy oedd yn ceisio cael fy sylw ond yr eneth bolcadots, ac yr oedd hi'n pwyntio at yr hafysac. Roedd yna rhyw hylif yn diferu ohono am ei phen. Ac yn wir erbyn sylwi roedd yna ysmotiau mawr gwyrdd yn gymysg â'r rhai du wedi ymdangos ar ei blows.

Cythrais i'r bag a'i dynnu i lawr ar frys, ac ar ôl archwilio ei gynnwys, roedd achos yr anffawd yn eglur. Roedd corcyn y botel 'fairy liquid' wedi dod i ffwrdd yn y stryffag. Roedd rhoi hwnnw yn ei ôl yn swydd haws o lawer na darbwyllo'r ferch y buasai'r smotiau yn diflannu yn y golch. Ond nid dyna, erbyn deall, oedd ei phryder mwyaf. Deallasom mai anrheg gan rhywun pwysig yn ei bywyd oedd y flows, a'i bod hi ar y foment honno ar ei ffordd i gyfarfod y pwysig hwnnw. Ond cawsom weledigaeth sydyn. Tynnwyd cynnwys un o'r bagiau allan a daethpwyd o hyd i gadach molchi. Rhuthrais hefo hwnnw i gaban y rhyddhad a'i streilio yn dda â dwr. Yna wedi dychwel, dechreuais rwbio'r smotiau gwyrdd â'r cadach gwlyb, ond yn lle diflannu, roeddent yn lledu ac yn codi yn ffroth, ac yr oedd yr hylif mae'n amlwg yn treiddio o dan ddillad y ferch. Cododd gyda gwaedd â dynnodd sylw yr holl

deithwyr, a chythrodd i'r cadach oddi arnaf.

"Gad iddi," meddai Siôn, sydd yn fwy hyddysg yn y gyfraith, "rhag ofn i ti gael dy gyhuddo o drais." Ac erbyn hynny roeddwn yn falch o wneud.

Pan ddaethom i Fanceinion, disgynnodd y ferch oddiar y trên, a thrwy gil ein llygaid gwelsom hi yn rhedeg i freichiau rhyw laprwrth anferth. Cadwasom ein pennau i lawr yn swat, a rhyddhad oedd gweld y drysau yn cau a ninnau eilwaith ar ein taith tua Chaergybi, yr ochr yma i Amsterdam.

Fe aeth yr hogyn wedyn i Ffrainc ar ei hynt, ond cymerodd ei ddarbwyllo i adael y 'fairy liquid' adre. Un boen yn llai.

Parhad o Dudalen 9

hynny, i ail-ddefnyddio llawer o'r rhannau gwreiddiol.

Aml fu'r anhawsterau. Ni chynhyrchid cadwynau i ffitio cocos 'Babs' erbyn hynny ond doed o hyd i rai addas mewn storfa yn yr Almaen. Darganfu Dunlop deians a oedd o fewn dim i'r maint priodol — ac felly, o dipyn i beth, gyda chymorth y gwneuthurwyr moduron, ond yn bennaf drwy benderfyniad a medr y perchennog o Gapel Curig — yn gadarn yr ail-godwyd yr hen gar, ac y clywyd ei ru drachefn ar draeth Pendin yn 1977.

Bydd ganddo fyrrach taith, inni gael dotio arno, i Lanrwst yn Awst.

SIÂN A SIÂN

Drama gyfres gan Gareth F. Williams



Mae hi'n 'Ddolg ond tydi Siôn Tomos a Siân Parry-Jones ddim yn hapus iawn eu byd. Ac mae treulio'r Wyl mewn bed-sit yng nghanol dinas yn gallu bod yn brofiad unig iawn.

Ond peidiwch a meddwl eich bod am gael noson ddigalon, o na, mae yma'r llon a'r lleddf ... dyn noeth yn gwneud campa', ffrii sy'n siarad, a Superted ... a llwer mwy! Mae Cwmni Theatr Gwynedd wedi ennill enw da iddo'i hun wrth deithio led led Cymru dros y ddwy flynedd diwethaf.

Y Cast fydd John Glyn Owen, Janet Aethwy, Dewi Williams, Judith Humphreys, Esyllt Roberts a Llion Williams

Cyfarwyddwr: Tony Llewelyn
Bydd "Siôn a Siân" yn cael ei pherfformio yn Theatr Gwynedd o nos lau, Chwefror 2il hyd nos Sadwrn, Chwefror 10fed.

Emyr Jones

PLYMAR A
PHEIRIANNYDD
GWRESOGI

Cynnal Boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau
44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon 3513



EMYR LL. PARRY

M.S.S.CH., M.B.CH.A.
CHIROPODIST
GWASANAETH
CARTREF
57 Glanffynnon
LLANRUG
Ffôn: (0286) 5754
(Gyda'r nos)

+

J.M.
JONES
A'I FEIBION
GWAITH
CERRIG
BEDDAU

Y SGWÂR, LLANRUG

Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol,
Cerrig o bob
math ar gael.

Ffôn:
Caernarfon 2898
(dydd)
Y Felinheli 670124
(nos)

Bistro

43-45 STRYD
FAWR
LLANBERIS
Ffôn: 871781



hefyd yn ystod y dydd

Y Bistro Bach

Y MAES
CAERNARFON
Ffôn: 3075



LLYFRAU CYMRAEG NEWYDD

Dylai'r llyfrau hyn fod ar gael yn eich siop lyfrau lleol neu eich lyfrgell.

Gorau 'Heddiw' 1936-1942
gan T Robin Chapman
Christopher Davies Cyf. £3.95.
Detholiad o rai o uchafbwyntiau'r cylchgrawn 'Heddiw'.

Iachawdwriaeth Gymaint
Gwyn Davies
Gwasg Efengylaidd Cymru.
£3.50.
Llyfr sy'n ceisio egluro gogoniant yr efengyl Gristnogol drwy holi ac ateb cwestiynau.

Lleisiau Plant
Jennie Gordon
Gwasg Gomer (CBAC) £2.75
Casgliad o ganeuon i blant, gan gynnwys caneuon ar gyfer achlysuron arbennig megis y Nadolig a'r Diolchgarwch.

Bro Annwyl y Bryniau
J Henry Griffiths
Cymdeithas Lyfrau Ceredigion Cyf. £2.50
Cyfrol o atgofion am Ystumtuen.

Sain y Werin
Meinir Heulyn
Alaw £3.25
Casgliad o alawon gwerin a cheinciau telyn Cymru wedi'u trefnu ar gyfer fflwiwt a thelyn neu ffidil a thelyn.

Llyfr Mawr Geiriau Smot
Eric Hill. Addas. Dilwen M Evans.
Gwasg Gomer. £4.25
Cyfle i ddarllenwyr ifainc gael hwy, a disgu llawer o eiriau newydd wrth ddilyn helyntion Smot a'i ffrindiau trwy gydol y flwyddyn.

Paul
Rhiannon Ifans
Gwasg Efengylaidd Cymru. 95c.
Casgliad o straeon am Paul a ymddangosodd yn gyntaf yn Cymru'r Plant.

Cywaith y Swyddfa Gymreig: Teithio Clwyd
Ann Wyn Jones
Y Ganolfan Adnoddau, Aberystwyth. £2.95.
Y cyntaf mewn cyfres o lyfrau teithio i oedolion, sy'n cyflwyno iaith, diwylliant a hanes broydd Cymru i Gymry Cymraeg ac i Ddysgwyr.

Pwy Sy'n Euog?
Joan Lingard. Addas. John Rowlands.
Gwasg Gomer. £3.50
Nofel i'r arddedau.

Cymro ar y Copa
Emrys Roberts
Gwasg Carreg Gwalch. £2.50
Pymtheg o straeon antur i blant, yn seiliedig ar hanesion gwir.

Beibl i Bawb
Elizabeth Williams
Gwasg Efengylaidd Cymru. 95c.
Hanes Mary Jones a dechreuadau Cymdeithas y Beibl.

Yn y Dref
Cyhoeddiadau Mei. £1.00
Y diweddaraf mewn cyfres o lyfrau sy'n llawn o bosau a lluniâu i'w lliwio.

PRINT BRAS
Dyddiadur Nant y Wrach
Hilma Lloyd Edwards
Cyhoeddiadau Mei. £5.25
Dyddiadur rhannol ddychmygol a darnau ohono wedi ei seilio ar blentynod taid a nain yr awdur yn ardal y Bontnewydd yn y flwyddyn 1915.

Pws Pwdin a'i Ffrindiau
Harriet Castor. Addas. Gwenno Hywyn
Cyhoeddiadau Mei. £2.25
Pump o storïau difyr i blant o dan ddeg oed.

Gasmasks a Cod Liver Oil
Eluned Giles
Cyhoeddiadau Mei. £1.00
Atgofion am ddyddiau duon yr Ail Ryfel Byd yn ardal Llanllfyni yng Ngwynedd.

Hannibal a'r Hebog
Dyfed Glyn
Y Lolfa. £1.95
Nofel yn seiliedig ar stori gyfres a deledwyd ar gyfer plant.

Gawn Ni Stori? Cyfrol 2
John Owen Huws
Gwasg Carreg Gwalch. £2.20
Casgliad arall o chwech o straeon gwerin Cymru wedi'u haddasu ar gyfer plant 6-10 oed.

Stiniog
Ernest Jones
Gwasg Gwynedd. £4.40
Cyfrol yn olrhain hanes datblygiad Stiniog yn y ganriff ddi-

wethaf a'r dirywiad fu yn y ganriff bresennol.

John Saunders Lewis: Y Gyfrol Gyntaf
D Tecwyn Lloyd
Gwasg Gee. £15.00
Cyfrol sy'n cyflwyno deunydd perthnasol i hanes bywyd Saunders Lewis a'i ddyddiau ysgol hyd, yn fras, ganol y tridegau.

Talwrn y Beirdd
gol. Gerallt Lloyd Owen
Gwasg Gwynedd. £4.00
Y bedwaredd gyfrol o farddoniaeth a gyhoeddwyd yn sgil cystadlaethau'r Talwrn ar Radio Cymru.

Chwarae'n Troi'n Chwerw
Geraint W Parry
Gwasg Gomer. £3.50
Nifel dditectif

John Gwilym Jones
John Rowlands
Gwasg Pantycelyn. £2.50
Y gyfrol ddiweddaraf mewn cyfres sy'n edrych ar fywyd a gwaith rhai o'n prif lenorion. (Cyfres Llên y Llenor)

LLyfr Llanast
Angharad Tomos
Y Lolfa. 95c.
Llyfr lliwio gwahanol yng nghwmni cymeriadau Cyfres Rwdlan!

Iawn yn y Bôn
Mari Williams
Gwasg Gomer. £3.00
Nofel i'r arddedau.

Am Funud
Meurwyn Williams
Ty John Penry. £2.95
Casgliad o sgysiau a gweddïau ar gyfer oedfaon a defosiwn bersonol.

PRINT BRAS

O Wythnos i Wythnos
John Roberts Williams
Cyhoeddiadau Mei. £7.00
Cyfrol o sgysiau.

Dyddiadur Nant y Wrach
Hilma Lloyd Edwards
Cyhoeddiadau Mei. £5.25
Dyddiadur rhannol ddychmygol a darnau ohono wedi ei seilio ar blentynod taid a nain yr awdur yn ardal y Bontnewydd yn y flwyddyn 1915.

CHWILOTA

Rai blynyddoedd yn ôl bu cyfres yn yr "Eco" dan y teitl "Chwilota". Profodd yn gyfres eithaf llwyddiannus a chryn lawer o ymateb gan wahanol ddarllenwyr. Efallai y cofiwch i ni gael toreh o wybodaeth mewn ymateb i gais am linellau o farddoniaeth gan Dewi Peris. Bellach, mae Cymdeithas Hanes lewyrchus wedi ei sefydlu yn y fro, ac efallai y bydd ail-gychwyn y gyfres yn gyfle i'r aelodau ac i eraill sy'n ymddiddori yn hanes a thraddodiadau ein hardal, i ysgrifennu pythau o wybodaeth, hanesion difyr, neu broblemau i'w datrys. Gadewch i ni ddechrau'r mis hwn efo:

'Dirgelwch Dydd y Farn'
Yn ei lyfr "Hynafiaethau a Thraddodiadau Llanberis" a gyhoeddwyd yn 1892, mae William Williams yn adrodd hanes Sian Hughes, Blaen y ddôl a Mari Tomos, Ty'n Gadlas, yn clywed swm band — a oedd yn teithio ar hyd Llyn Padarn mewn cychod. Credai Sian Hughes mai Dydd y Farn ydoedd, ac mai udgryn yr atgyfodiad a glywai'n y pellter.

Mae'r hanes fymryn yn wahanol gan William Hobley yn "Hanes Methodistiaeth Arfon". Yn ôl Hobley, Mari Tomos oedd yr un a gredai yn nyfodiad Dydd y Farn ac nid Sian Hughes. O leiaf, mae'r ddau awdur yn cofnodi yr un ddwy ferch yng nghwmni ei gilydd.

Roedd Sian Hughes yn nain (o du eu tad) i Gutyn Arfon a Dewi Arfon. Dywedir fod y band wedi teithio ar y llyn cyn dyfodiad y rheilffordd a chyn sefydlu Band Llanrug. Os yw'r ffeithiau hyn yn wir, yna mae'n dyddio'r digwyddiad i chwarter cyntaf y ganrif ddiwethaf. Ond, band ble oedd y teithio mewn cychod? Rhaid cofio mai Band Llanrug yw band hynaf Gogledd Cymru, ac felly mae'n debyg mai un o fandiau'r militia o Gaernarfon oedd hwn. Ond pam roedd yn teithio i Lanberis mewn cychod?

Oes rhywun o'r darllenwyr all ddatrys y dirgelwch?

Os oes unrhyw un o'r darllenwyr â chyfraniad i'r golofn "Chwilota" gellir cysylltu'r â'r Golygydd Erthyglau.

- Jig i Atgyweirio Cyrrff
- Tiwnio Crypton
- MOT
- Ail-Sbreo
- Tracio
- Balansio Olwynion
- Gwasanaethu
- Cymysgu Paent
- Gwerthu Ceir Newydd ac Ail-law
- Partiau Renault
- Petrol ESSO a DERV
- Sigarennau a Melysion
- Calor Gas

PRIF GYNRYCHLIOLWYR



YNG

NGWYNEDD

Perchennog: E.P. Hughes

MODURDY DOLYDD

GROESLON Ffôn: Llanwnda 830562

MAE'R

SAMARIAID

YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD



BANGOR
354646

CWM-Y-GLO

Gohebydd: Mrs Iris Rowlands, 'Glanrafon' (872275)

LLONGYFARCHIADAU i Miss E Hughes, Tan-y-Graig ar gyrraedd ei 80 oed;

i Nerys, Bwlch, ar gyrraedd ei deunaw oed;

i Sandra, Tan'rallt ar ei dyweddïad â Dewi o Gaernarfon;

i Sandra a Keith Jones, 4 Dôl Afon, ar enedigaeth merch fach, chwaer i Andrew a Jennifer;

i Sharon a Graham Judge, Caernarfon, ar enedigaeth mab, brawd bach i Donna;

i Ann a Richie Hughes, 10 Dôl Afon, ar fod yn daid a nain, ac i Enid a Robin Price, Stryd Newydd ar fod yn hen nain a hen daid.

EGLWYS SANT GABRIEL: Cynhaliwyd gwasanaeth o Naw Llith a Charol yn yr Eglwys nos Sul, Rhagfyr 18fed. Arweiniwyd y gwasanaeth gan Mrs Ruth Charles. Darllenwyd y llithoedd gan blant o'r Eglwys sydd yn derbyn eu Bedydd Esgob ym mis Mai. Yr Organydd oedd Mr Glyn Roberts, Porthmadog.

Bore Nadolig, gweinyddwyd y Cymun Bendigaidd gan y Parch L O Arridge, Bangor. Yr organydd oedd Mr Gareth Jones.

UNDEB Y MAMAU: Cynhaliwyd cyfarfod i aelodau Llanrug a Chwm y Glo yn yr Ysgol Gymuned, nos Fawrth, 10 Ionawr. Yr oedd y cyfarfod yng ngofal Mrs Enid Taylor.

Ar ôl trafod rhai materion cafwyd sgwrs a filmiau gan Mr Peter Taylor, y gwr gwadd. Treuliodd Mr a Mrs Taylor dri mis yn ystod yr haf gyda'u mab yn Botswana. Diolchwyd i Mr Taylor gan Mrs K Jones, Llanrug. Aelodau Cwm oedd yn gyfrifol am y lluniaeth a diolchwyd iddynt gan Mrs Side, Llanrug. Enillwyd y raffls gan Mr Taylor a Mrs V Jones. Bydd y cyfarfod nesaf yn Hafan Elan, Llanrug, nos Iau, Chwefror 2, a'r wraig wadd fydd Mrs Hefina Evans.

CROESO: Estynnwn groeso a phob dymuniad da i Mr J Richard Williams, prifathro newydd yr Ysgol Gymuned. Penodwyd Mr Williams oedd yn ddirprwy benaeth Ysgol Gymuned Pentraeth,

Môn i olyn y cyn-brifathro, Mr Idriswyn Roberts.

DIOLCH: Ar ran pensynwyr yr ardal, hoffwn ddiolch yn garedig iawn i'r chwirydd a'r brodyr a ddarparodd wledd Nadolig arbennig yn y Ganolfan, nos Fercher, Rhagfyr 7. Pleser oedd cael eistedd wrth fyrddau wedi eu hadurno yn ddeniadol a mwynhau cinio safonol gyda amrywiaeth o ychwanegiadau yn cynnwys anrheg i bawb. Roedd yr adloniant yn dilyn yn foddhaol dros ben. Nid dyma y tro cyntaf i'r pensynwyr dderbyn gwahoddiad tebyg a hoffem estyn ein gwerthfawrogiad a'n diolch am eich caredigrwydd eleni eto.

CLWB POBOL Y CWM: Yn ôl yr arfer, trefnwyd cyfarfod i ddathlu Gwyl y Nadolig dydd Iau, Rhagfyr 15fed. Crewyd naws traddodiadol yr Wyl tra'n mwynhau lluniaeth o ddanteithion arferol a ddarparwyd gan wragedd y Clwb. Yn dilyn y wledd, rhoddodd Mr R H Parry ei feirniadaeth ar amrywiaeth o gystadlaethau oedd wedi eu trefnu yn flaenorol. Y buddugwyr oedd Mrs G Chick, Mrs K Watkins, Mr Hugh Pritchard, Mr Llew Hughes.

Llongyfarchwyd Miss E Hughes, Tan y Graig ar gyrraedd ei 80 oed. Diolchodd y Llywydd ar ran yr aelodau i'r Brodyr Morris am y Bara Brith a'r Mins Peis ac i bawb am eu cyfraniadau hael.

GWLEDD GERDD: Cofiwch am y cyngerdd a gynhelir yn Ysgol Brynrefail, nos Wener, Chwefror 10fed am 7.30. Ymdrech yw'r noson gan gyfeillion Gareth "o Lanrug", i godi arian at Ymchwil yr Arennau yn yr uned ym Mangor. Tocynnau £2 ar gael yn rhai o'r siopau lleol. Os am wledd peidiwch â methu'r cyngerdd.

DALIER SYLW!

Mae Clinic Dynion Holliach Llanberis wedi ail gychwyn Nos Lun Ionawr 9 fed 1989, o 6 tan 8 o'r gloch.

Cynhelir y Clinic bob nos Lun cynta'r mis fel arfer ond ar yr ail os bydd Gwyl Banc.

Dowch a'r corff yn ôl i'w siâp ar ôl y Nadolig!

BRYNREFAIL

Gohebydd: Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. 870580

GWASANAETH NADOLIG: Nos Sul, Rhagfyr 18fed daeth cynulliad teilwng ynghyd i'r gwasanaeth i ddathlu'r Nadolig dan nawdd aelodau'r Ysgol Sul. Llywyddwyd gan Mr Gwyn Hefin Jones. Cymerwyd rhan yn y datganiadau llafar, y gweddïau a chyflwyniadau'r carolau gan athrawon yr Ysgol Sul — Mrs Mair Davies, Mrs Ifanwy Jones a Mrs Carol Houston. Yna, cafwyd perfformiad cofiadwy gan ieuencid a phlant yr Ysgol Sul o ddramodig Nadolig 'Y Tri Rhosyn' wedi ei threfnu gan Miss Lowri Prys Roberts gyda chymorth cyfeillion yr Ysgol Sul. Yn dilyn, cyflwynwyd anrheg ar ran yr Ysgol Sul, i'r plant, gan y Parch John Morris. I derfynu'r oedfa, gweinyddwyd y Sacrament o Swper yr Arglwydd gan y Gweinidog.

OEDFA'R FLWYDDYN NEWYDD: Nos Sul, Ionawr 1af, cynhaliwyd cyfarfod gweddi arbennig i ofyn am fendith ar ddechrau blwyddyn. Dechreuwyd yr oedfa gan y Gweinidog, y Parch John Morris. Cymerwyd rhan ymhellach gan Mrs Jennie Roberts, Glandwr; Mr Bertie Roberts, Llwyncoed Bach; Miss Annie May Williams, Llys Arfon; Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed a Mrs Gwyneth Evans, Ty'n Buarth. Anfonwyd cofion at Miss Blodwen E Owen, 2 Tai Orwig gan ddymuno adferiad buan iddi wedi triniaeth dderbyniodd ychydig ddyddiau cyn y Nadolig yn Ysbyty Gwynedd.

Balch oeddyd hefyd fod Mrs Jennie Roberts wedi gallu cymeryd rhan yn yr oedfa, hithau wedi treulio cyfnod yn Ysbyty Gwynedd cyn yr Wyl.

Cyhoeddwyd y fendith gan y Parch John Morris.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Nos Lun, Ionawr 11eg, cyfarfu'r gangen yn y Festri. Croesawodd y llywydd, Mrs Pat Jones, Mr a Mrs John Evans o Lanrug i'r cyfarfod. Cafwyd noson eithriadol o ddiddorol ac addysgiadol yn eu cwmni wrth iddynt arddangos tryloewderau o enghreifftiau crefftus o addurno ffynhonau yn Swydd Derby, a'r holl waith yn seiliedig ar hanesion detholedig o'r Hen Destament a'r Newydd, a hynny dros gyfnod o ugain mlynedd. Diolchwyd i Mr a Mrs Evans gan Mrs Eirlys Williams. Trefnwyd lluniaeth y noson gan Mrs Rhian Jones a Mrs Carol Houston ac enillwyd gwobr y mis, rhoddedig gan Mrs Rhian Jones, gan Mrs Pat Jones. Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, Chwefror 20fed.

GWLEDD GERDD: Cofiwch am y cyngerdd a gynhelir yn Ysgol Brynrefail, nos Wener, Chwefror 10fed am 7.30. Ymdrech yw'r noson gan gyfeillion Gareth "o Lanrug", i godi arian at Ymchwil yr Arennau yn yr uned ym Mangor. Tocynnau £2 ar gael yn rhai o'r siopau lleol. Os am wledd peidiwch â methu'r cyngerdd.

TAN-Y-COED

Gohebydd: Miss Bethan Parry, "Ael-y-Bryn"

LLONGYFARCHIADAU i Beverley Ann Roberts, Awelfryn, ar lwyddiant yn ei arholiad Piano Gradd 4, ac i Sara Salisbury Roberts, Min y Parc ar lwyddo yn ei arholiad Dawnsio Gradd 2, gyda'r 'Modern Theatre Dancing'.

Hefyd llongyfarchiadau i Mrs Ellis, gynt o 3 Tai Bryngwyn, nawr yn Llys Eiddon, Llanrug, ar gyrraedd ei phen-blwydd yn 90 oed ar Ionawr 16eg.

CYDYMDEILWN: â theulu'r diwed-

dar Mr Robert Griffiths, Llys Meredydd yn eu profedigaeth.

GWLEDD GERDD: Cofiwch am y cyngerdd a gynhelir yn Ysgol Brynrefail, nos Wener, Chwefror 10fed am 7.30. Ymdrech yw'r noson gan gyfeillion Gareth "o Lanrug", i godi arian at Ymchwil yr Arennau yn yr uned ym Mangor. Tocynnau £2 ar gael yn rhai o'r siopau lleol. Os am wledd peidiwch â methu'r cyngerdd.

CARPEDI GLÂN!

Mynnwch driniaeth

STIMVAK

gyda'r offer mwyaf modern, diweddaraf, sydd ar gael. Am fanylion cysylltwch â

TEGID

PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR 291

Hefyd ail-osod carpedi

HOME IMPROVEMENT CENTRE

FFORDD YR ORSAF, LLANRUG

Ffôn: C'fon 2122

ar gyfer...

Paent, Papur wal,
Anghenion addurno,
Coed, Tywod, Gro,
Brics, Blociau,
a Sment,
Offer plymio

Anghenion Tŷ,
Garddio,
Hadau Unwin,
Hardware, nwyddau
Ironmonger
Teganau

Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O.

YSGOL YRRU OFALUS

- * Gwasanaeth 7 diwrnod
- * O ddrws i ddrws
- * Control Deuol



PRITCHARD

43 Glanffynnon
LLANRUG

CAERNARFON 5112

Cymeradwyir gan yr Adran
Drafnidiaeth

PENISARWAUN

Gohebydd: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)

URDD, Adran Bentref: **Nos Lun, Rhagfyr 19:** Mwynhaodd pawb y Parti Nadolig yn Neuadd yr Eglwys, dawnsio i Ddisgo'r Urdd a bwyta digon. Diolchodd Arwel i bawb ar ran y plant.

Nos Fawrth, Ionawr 3ydd: Dyma noson ail-ddechrau gweithgareddau wedi'r Nadolig. Bu pawb yn ddiwyd yn chwarae gêm Chwilen gyda Louise yn ennill y mwyaf o farciau.

Nos Fawrth, Ionawr 10fed: Daeth Mr Islwyn Williams atom, dyma noson mae'r plant yn edrych ymlaen yn eiddgar amdani. Gwnaeth nifer o luniau bendigedig am y gwahanol dymhorau, a gwnaeth un llun yng nghwmni'r plant. Diolchodd Nia i Mr Williams.

Dyma restr y gweddill o weithgareddau Tŷmôr y Pasg:

Ionawr 17: 'Fy Hoff Beth';

Ionawr 24: Fideo;

Ionawr 31: Mrs Mary Eliot yn sôn am waith llaw ar gyfer Eisteddfod yr Urdd, 1989;

Chwefror 7: Gwneud Crempog gyda Mrs Janice Jones;

Chwefror 14: 'Cymorth Cyntaf' gyda Mr Griff Roberts, Llanrug — Bydd y cyfarfod hwn am 6.30pm;

Chwefror 21: Noson yng ngofal Mr Len Jones;

Chwefror 28: Gwaith Llaw — Sul y Mamau, gyda Mrs Pat Jones, Brynrefail;

Mawrth 7fed: Noson i'w threfnu;

Nos Fercher, Mawrth 15: Ymweld â'r Ganolfan Hamdden yng Nghaernarfon.

Yn ychwanegol i'r gweithgareddau yma, gobeithir trefnu ymweliad â Stiwdio Sain, Llandwrog ar gyfer y plant hyn. Hefyd trip i Blas Tan y Bwlch, Maentwrog. Fe geir manylion pellach am hyn.

PARTI NADOLIG CLWB YR HEULWEN: Dymuna pwyllgor yr Urdd ddiolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd tuag at y parti.

LLONGYFARCHIADAU: Pob dymuniad da i Olwen Jones, Pant Hywel ar achlysur ei phen-blwydd yn 18 oed ar Ionawr 16. Llongyfarchiadau hefyd i Mrs M J Roberts, 5 Llys y Gwynt a ddathlodd ei phen-blwydd yn 88

oed yn ddiweddar.

GWELLHAD: Gobeithio y bydd y flwyddyn 1989 yn argoeli'n dda i bawb ohonom, ac i chi sydd wedi bod yn sâl, dymunwn adferiad iechyd buan. Anfonwn ein cofion at Mr Nathan Jones, sydd wedi cael triniaeth mewn ysbyty yn Lerpwl, ac i Melanie well, 5 Bryn Tirion — dymunwn wellhad buan wedi ei thriniaeth ym Mangor.

GAIR O GROESO: Estynnwn groeso cynnes i deuluoedd 7 Bryntirion a 9 Bryntirion. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn ein cwmni.

PWYLLGOR NEUADD: Rhagfyr 16: Cafwyd Noson Wasael yn Neuadd yr Eglwys am 6.30pm. Diolchir i Mrs Nansi Jones am arwain ac i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd at y noson o ganu carolau.

Ionawr 27: I ddathlu Dydd Santes Dwynwen, cynhelir Noson Gymdeithasol yng Ngwesty Fictoria, Llanberis. Trefnir bws. Croeso cynnes i bawb.

Mawrth 3: 'Cawl a Chân' i ddathlu Gwyl Dewi — tynnir Clwb Cant Chwefror yn y noson hon.

DIOLCHIADAU: Dymuna Mrs M J Roberts ddiolch o galon i bawb a fu'n ei gweld yn yr Ysbyty ac yn holi amdani ar ôl iddi ddod o'r ysbyty, ac am gofio ei phen-blwydd.

YSGOL SUL BOSRA: Bore Sul, Rhagfyr 18, cynhaliwyd Gwasanaeth Nadolig y Plant. Dymuna'r athrawon ddiolch i'r plant am wneud eu gwaith mor dda — yn enwedig o gofio fod nifer fawr o'r aelodau yn absennol oherwydd y fflw.

Rhagfyr 22ain ar y cyd ac Ysgol Sul yr Eglwys, cynhaliwyd Parti Nadolig i'r plant yn Neuadd yr Eglwys. Daeth Sion Corn i'w gweld a chyflwyno arian afal ac oren i bob un. Cyflwynodd Andrea anrheg i Sion Corn a chafodd glamp o gusan ganddo. Diolchir i bawb a gyfrannodd at y parti.

EGLWYS SANTES HELEN: Dymuniadau da i'r Parchedig Ganon Richard Jones, Deon Gwlad Arfon, yn ei ofalaeth

newydd ym Mhorthaethwy a diolch iddo am ei waith yn ein plith ers 1983. Bydd yn cael ei osod yn Ficer Porthaethwy, nos Wener, 27ain o Ionawr am 7 o'r gloch.

Gweinyddir Cymun Bendigaid Dydd Mercher Lludw yn yr Eglwys gan y Parchedig Tegid Roberts am 6 o'r gloch.

YSGOL TAN-Y-COED: Daeth Sam Tân i weld y plant i'r ysgol bnawn Gwener, Rhagfyr 16. Bu plant Safon 1 a 2 yn ei holi yn fanwl am ei wasanaeth clodwiw. Bu ei ymweliad yn glo da i'w cywaith ar Dân. Diolchir i Fideo Llyn am ddod â Sam yr holl ffordd i Bensiarnau, roedd cystal ag ymweliad gan Sion Corn ei hun.


YSGOL FEITHRIN: Mae'r Ysgol Feithrin yn cael ei chynnal yn Ysgol Tan-y-Coed y tymor yma ac mae'r plant yn mwynhau eu hunain yn peintio ac yn gludo, gwrando ar stori a chanu. Bydd rhwng 8 ac 11 o blant yno ar fore Mawrth a bore Iau. Hoffwn ddiolch i Brifathro a staff yr ysgol am eu cydweithrediad.

CYDYMDEIMLAD: Ar ran Pwyllgor Neuadd Bentref Penisarwaun, estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â theulu'r diweddar William Oliver Jones, un o Ymddiriedolwyr sylfaenol y Pwyllgor Neuadd.

GWLEDD GERDD: Cofiwch am y cyngerdd a gynhelir yn Ysgol Brynrefail, nos Wener, Chwefror 10fed am 7.30. Ymdrech yw'r noson gan gyfeillion Gareth "o Lanrug", i godi arian at Ymchwil yr Arennau yn yr uned ym Mangor. Tocynnau £2 ar gael yn rhai o'r siopau lleol. Os am wledd peidiwch â methu'r cyngerdd.

BUDD BAW BUWCH: Wele Blacan, un o wartheg duon Michael Jones, Tyddyn Perth! O rwan i fis Mai, bydd Blacan yn derbyn Gofal Arbennig. Fe'i bwydir â'r bwyd mwyaf maethlon ar gyfer ei chyfraniad buddiol. Y mae'r ffurflenni ar gael gan aelodau'r Pwyllgor. Pris blwch — dim ond 50c. Pwy all wrthod Rhawiad o Faw Buwch am wobwr anrhydeddus o £25 ynte?

"BUDD" BAW BUWCH



RHODDION

Diolch i'r canlynol am eu rhoddion i gronfa'r Eco.

£5: Teulu Tan'rallt, Waunfawr;
£5: John V Morris, Rhianfa, Deiniolen; Mrs Mary Griffiths a'r teulu, Fron Deg, Clwt y Bont; Mrs M Jones, Minffordd, Llanberis;

£3: Mr a Mrs Kevin Hewitt, Bangor; Eleri ac Eiriona Owen, 29 Stryd Newydd (gynt), Deiniolen;

£2: Mrs Lizzie Jones, Eithinog, Llanberis; M Baylis, Anfield, 4 Coed y Ddol, Llanberis; D M Davies, Stryd Fawr, Llanberis; : Mrs Annie Williams, Foelas, Llanrug; Griffith Thomas Jones, Pennant, Deiniolen; Brigid Hughes, Gwyrfa Terrace, Clwt y Bont; Mr John Williams, Monawel, 3 Cynfi Terrace, Deiniolen; Mr Sion Roberts, 47 Rhydfadog, Deiniolen;

£1: Mrs M J Roberts, 5 Llys y Gwynt, Penisarwaun.

Am waith
PEINTIO, ADDURNO
a mân atgyweirio oddi mewn
neu tu allan am bris rhesymol
cysyllter ag

ERIC JONES

17 BRYN TIRION

PENISARWAUN

Ffôn: LLANBERIS 872421



STRYD FAWR, DEINIOLLEN Ffôn Llanberis **871210**

Crefftau llechi: arlunwaith, clodau, calendrau, raciau llythyrau ac ati. Hefyd **crefftau lleol eraill:** crochenwaith, gwaith coed, blodau addurnol.

Arddangosfa o hen luniau chwarel.

A dewis rhagorol o Fideos i'w benthyg

LLANBERIS

Gohebydd: Iola Sellers, 13 Bro Eilidr (Ffôn: 871 0430).

DIOLCH: Dymuna Mrs Lizzie Jones, Eithinog, ddiolch i'w ffrindiau am y llu cardiau a'r anrhegion a gafodd ar achlysur ei phen-blwydd yn bedwar ugain ddechrau lonawr. Tra gwerthfawrogi'r holl garedigrwydd.

DIOLCH: Dymuna Megan Jones, Minffordd, ddiolch yn fawr iawn i'w theulu a'i ffrindiau am yr holl gardiau, anrhegion a blodau a dderbyniodd ar ôl ei llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

LLONGYFARCHIADAU: i'r rhai canlynol ar achlysur eu pen-blwydd yn un ar hugain oed: Delyth Roberts, Maes Padarn; Iona Owen, Maes Padarn; hefyd i Nia Owen, 40 Dôl Elidir, ar achlysur ei phen-blwydd yn ddeunaw oed; a Mrs Lizzie Jones, Eithinog ar ei phen-blwydd yn bedwar ugain oed.

LLONGYFARCHIADAU i Gillian a Michael, Stryd Yankee ar enedigaeth eu mab bach cyntaf, David; i Lyn a Maldwyn Jones, Stryd Newton ar enedigaeth eu mab bach, brawd i Jonathan; i Yvonne a Dave, Dôl Elidir ar enedigaeth eu mab bach cyntaf, Mark, ac i Lorna a Bobby Owen ar fod yn nain a taid am y tro cyntaf. **LLONGYFARCHIADAU** i Mrs Margaret Roberts ar fod yn hen nain unwaith eto.

DIOLCH: Dymuna Colin Thomas ddiolch i'w deulu a ffrindiau am eu caredigrwydd ar ôl ei ddamwain pan dorodd ei fraich.

DYMUNA Jean a Graham, Gwesty Tywysog Cymru, ddiolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd at y raffl Nadolig at Ysgol Dolbadarn. Gwnaed elw o £262.50. Diolch i bawb.

DYMUNA Charlie Lovell ddiolch i bawb am bob arwydd o garedigrwydd a ddangoswyd tuag ato ar ôl ei ddamwain.

CLWB Y LLENG PRYDEINIG: Dymuna Pwyllgor y mudiad uchod ddiolch i'r aelodau i gyd am eu cymorth trwy y flwyddyn a thros y Nadolig. Dymunant ddiolch i bawb

a wnaeth gyfrannu mor hael at y raffl Nadolig a oedd mor llwyddiannus. Hefyd dymunant ddiolch i bawb a wnaeth gefnogi y gystadleuaeth Pwl a gafodd ei chynnal yn y clwb a diolch yn arbennig i Alun Ll Jones a Dennis Evans am drefnu popeth.

Canlyniadau y dynion: Enillydd: John Roberts; Ail: Eric Bayliss; 3ydd: Noel Owen a Keith Roberts. **Merched:** Enillydd: Carol Ellis; Ail: Gillian Jones; 3ydd: Gaynor a Melaine Sellars.

Diolch i bawb am eich cymorth cyson.

CYDYMDEIMLWN â Mrs Mair McConnell a'r plant yn eu profedigaeth o golli gwr a thad, sef Mr Thomas McConnell, 7 Maes Derlwyn;

Vivian a Tom Alun a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli mam, sef Mrs Mair Williams, Stryd y Dwr; Mrs Iola Owen a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli mam, sef Mrs Lily Jones, gynt o Glanrafon Bungalows;

Mrs Pat Williams a'i theulu oll yn eu profedigaeth hwythau.

Enid, Mair, Gareth ac Eifion yn eu profedigaeth o golli gwr a thad, sef Ceris Hughes, Maes Padarn;

Eric, Emlyn, Gwendoline a Tim a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli tad, sef Mr Bill Baylis, Caernarfon;

Mrs Gwyneth Parry, 18 Dôl Elidir yn ei phrofedigaeth hithau o golli brawd yng nghyfraith o Ddeiniolen.

DIOLCH: Dymuna Gillian a Michael ddiolch i bawb a fu mor garedig wrthynt ar enedigaeth eu mab bach, David.

DYMUNA Eric Baylis a'r teulu ddiolch i bawb am gardiau, galwadau ffôn a'r cydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli eu tad, Mr Bill Baylis, Caernarfon.

YR YSGOL FEITHRIN: Cafwyd parti Nadolig da iawn a daeth Santa yno ac anrheg i bob plentyn. Diolch yn fawr i'r Lleng Brydeinig am eu rhodd i'r plant.

Enillwyr y raffl Nadolig oedd:

T J Roberts, 83 Maes Padarn; Teisen Nadolig; Sioned Roberts, 14 Ceunant Street; Hamper;



Daeth Mr a Mrs Reynolds a Mrs Williams a'u peiriannau gwau i'r ysgol er mwyn dangos i blant dosbarth Mrs Lis Roberts sut maent yn gwneud siwmperi.

Bethan Evans, Ty Crwn: Potel o win; Mai Marshall: Tegan meddal (clown); Betty Hughes, Snowdon Street: Hamper; Gwyn Mali: Basged o ffrwythau; Jean Ranson: Hamper.

Y CLWB GARDADIO: Ffrwythau a llysiau fydd pwnc trafod y cyfarfod nesaf o'r Clwb Garddio, nos Fercher, Chwefror yr 8fed am 7.30 yng Ngwesty Gwynedd, Llanberis. Cynllunio bordor lliwgar (6tr.x18mod) fydd y gystadleuaeth. Pob croeso i aelodau

newydd.

YSGOL DOLBADARN

Mae'r ysgol wedi dechrau casglu papur er mwyn cael arian i gronfa'r ysgol. Byddem yn ddiolchgar iawn o dderbyn papur i'w roi yn y 'skip' sydd wedi ei lleoli ar fuarth yr ysgol.

Cyflwynwyd siec i'r ysgol gan Mrs Hughes, Gwesty Prince of Wales. Gwnaethwpyd raffl yn ystod y Nadolig a chasglwyd £262.50. Rydym yn hynod o ddiolchgar i bawb a gefnogodd y raffl.

NANT PERIS

Gohebydd: Ann Fleming, 'Dolwen', 8 Nant Ffynnon (871457)

GWELLA: Balch ydym o weld Alan yn gwella unwaith eto. Mae Alan yn diolch yn fawr i bawb am eu caredigrwydd yn ystod ei arhosiad yn yr ysbyty yn ddiweddar.

PROFEDIGAETHAU:

Cydymdeimlwn â Mr Emlyn Bayliss, Vaynol Arms a'r teulu yn ei brofedigaeth o golli ei dad. Bu farw yn Ysbyty Gwynedd ar 24ain o Ragfyr a bu'r angladd yng Nghaernarfon ar y 30 o Ragfyr.

Hefyd cydymdeimlwn â Mrs Ann Price, Swyddfa'r Post a'r teulu, hithau wedi colli ei mam. Bu farw yn Ysbyty Gwynedd ar y 5ed o Ionawr a bu'r angladd ym Birmingham ar y 12fed o Ionawr.

DIOLCH: Dymunaf, ar ran pensiynwyr y Nant ddatgan ein diolch

diffuant a'n gwerthfawrogiad i Bwyllgor y Carnifal, hefyd i Emlyn a Marie am y bwyd ardderchog a gawsom a'r croeso gafwyd yn y cinio Nadolig. Roedd y bwyd a gawsom cystal os nad gwell nag a geir yng ngwestai mwyaf moethus Llundain. Gwerthfawrogn yn fawr yr hyn a wnaed ar ein rhan.

CROESO mawr i Janet a Stan sydd ar wyliau o Seland Newydd ac yn aros yn Gwynant efo'u chwaer a'u brawd yng nghyfraith.

LLONGYFARCHIADAU i Llinos Haf Jones, 10 Glanrafon ar basio arholiad Piano Gradd 5. Da iawn Llinos.

LLONGYFARCHIADAU i Janice a Dei Tomos ar enedigaeth merch ar ddydd Gwener, 13eg o Ionawr.

Llongyfarchiadau hefyd i Eleri a Danny Mullane, Cae Gwyn ar enedigaeth mab ar 14eg o Ionawr, brawd bach i Rene, Willie a Nora.

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati,
Peis, Rholiau Sosej,
Pasteiod, Teisennau Hufen,
Teisennau Plât, Torth Gyrains etc.

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

E.W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

Agor Ffiniau'r Gorffennol

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

TRAWIADAU PERT YR HEN GYMRY

Cofiaf fy nhad, Glan Rhyddallt, yn dweud fel hyn mewn sgwrs, a fu yr un gwell erioed am sgwrsio. "Yr oedd yr hen Gymry gynt yn hynod am lunio trawidau pert, ar gân neu mewn rhyddiaith. Y mae digon ohonynt ar gael ac ynddynt ceir profiadau a hanes ein gwlad mewn adegau anodd i fyw ynddynt."

Y mae tri o bopeth yn hen syniad, er engraifft:

"Tri pheth sy'n anodd imi,
Cyfri'r sêr pan fyddo'n rhewi,
Rhoi fy llaw ar gwrr y lleuad,
A gwybod meddwl f'annwyl gariad,"

"Tri pheth sy'n anodd eu nabod,
Dyn, derwen a diwrnod,"

Pethau Hawdd
Ond y mae yna bethau hawdd, er engraifft:

"Gwyn fy myd pe bai cyn hawsed
Nofio'r môr a charu'r merched,
Mi a nofiwn rhwng y tonnau—
O Foel y Don i Abermenai."

"Hawdd yw dywedyd 'Dacw'r Wyddfa',
Nid eir trosti ond yn ara."

"Diofal yw'r aderyn
Ni hau ni fêd un gronyn
Ac ni wna orchwyl yn y byd
Ond canu ar hyd y flwyddyn."

"Llawer gwaith y bûm, wrth garu
'N oeri nhraed a cholli 'nghysgu
Aros allan yn yr oerni
A Gwenno'n chwerthin yn ei gwely."

Fesul Tipyn
"Côd o dy wely," gwaeddai'r fam ar Wil
yn y bore,

"Tewch," meddai Wil —
"Roeddwn, pan alwasoch gynta
Yn gorwedd yn yr ochr bella'
Ond yn awr 'rwyf wrth yr erchwyn
Felly'n dwad fesul tipyn."

Y mae'r byd a chymdeithas yn newid "fesul tipyn."

Heddiw nid oes llawer o wahaniaeth o ran golwg rhwng dillad y frenhines ar dillad merch i weithiwr cyffredin.

Y mae urddas y pendefigion gynt wedi ei ddarostwng i'r llwch. Daw'r frenhines i siarad â phobl dlodion fel pe tae ond, ond wrth gwrs 'does neb yn dlawd heddiw

yn yr ystyr a roddid i dlodi yr oes o'r blaen.

Erstalwn ni chaniateid i'r frenhines siarad gyda phobl o isel-radd, ond "fesul tipyn" y mae tlawd a chyfoethog yn dod yn nes i'w gilydd.

Y mae poblogaeth y byd yn dwad yma "fesul tipyn," ac yn marw "fesul tipyn." Achosai ddryswch mawr, wrth gwrs, pe deuem yma gyda'n gilydd ac mynd oddi yma gyda'n gilydd.

Yn adroddiad Sion a Sian ar y Sabath, dyma oedd profiad Sion.

"Fe fyddai'n drugaredd oni fyddai Sian,
Pe galwai'r hen gloch ni 'run pryd."

Drych mewn llythyr
Is amlen beth yn symlach - yn agor
Ei neges yn gliriach?
Gwefr annwyl ei gyfrinach
Llith i'r byw yw'r llythyr bach.
Owain Peris

I gofio Elen
O fedd obry, na fydd ddibris - o lwch
Y ferch lân uchelbris,
Yn dy rô mae'n huno is
Elen bur o Lanberis.
Glan Rhyddallt

Yr Eilliwr
Yn ddwys beunydd sebona - wr hynod
A'r wyneb a eillia:
Nodio'n wyl, sbwng wedyn, a
Powdwr neis, "Pwy di'r nesa"?
Glan Rhyddallt

Iâr yn dodwy
Dedwydd yw'r iâr sy'n dodwy
A da'r iâr sy'n deor wy.
Nid un wy a ddodwya,
Wy o hyd ar hyd yr ha.
Glan Rhyddallt

* * *

Taid i chwech
Gu f'enaid fe gofynnech - pwy ydwyf,
Heb oedi gair gawsech;
O holi, f'ateb welech,
"Tad i chwi, ond taid i chwech."
Glan Rhyddallt

"Beth gymerwch"
Nid wyf yn hoff o goffi - na choco
Na chacan, na jelly;
Bara gwyn, hyn fydd heini.
A'r enlllyn yw 'menyn i mi.
Glan Rhyddallt

Un misi
Hefo hadog fe'i hudwyd
I fetio bawb am fyta bwyd.
Glan Rhyddallt

Chwist Drive
O'r tād! Beth ddwedai'r tadau - a oes drwg
Mewn chwarae Whist Drive i foesau?
Nid wyth na phedwar, na dau,
Ardal sy'n chwarae cardiau.
Glan Rhyddallt



Sut le fydd yn Eryri erbyn diedd yn ganrif — o safbwynt ffermio, twristiaeth ac hamddena? Ym mhlas Tan y Bwlch, Maentwrog, nos Fawrth, Chwefror 7fed am 7.300; bydd panel o arbenigwyr yn trafod y cwestiwn. Bydd y cyrff canlynol yn cael eu cynrychioli:- Bwrdd Croeso Cymru, Y Comisiwn Cefn Gwlad, Undeb Amaethwyr Cymru ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Os am ragor o fanylion, cysylltwch â Geraint George (0766) 85 324.

CEUNANT

Gohebydd: E Parry, Morwel

CAPEL: Cynhaliwyd Gwasanaeth Nadolig yng nghapel Ceunant ar Ragfyr 11eg. Cymerwyd rhan gan Nicola Jones, Ffion Williams, Karen Jones, Catrin a Dylan Parry, Dylan Thomas a Gwenno Parri.

YMDDEOLIAD: Dymunwn ymddeoliad dedwydd a hapus i Mr Caradog Jones, Ty Capel. Bu'n gwasanaethu yn ardal Waunfawr fel postmon am ddeunaw mlynedd.

Wedi Ysgrifennu Sgetsys?
Wedi bod ag awydd
ysgrifennu Sgetsys?
Os mai "Do" yw'r ateb
rydym yn chwilio am
ysgrifennwyr ar gyfer cyfres
o raglenni ysgafn..
Cysylltwch â
Cwmni'r Castell
1 Ffordd Coed Pella,
Bae Colwyn

CYMDEITHAS RHINI AC ATHRAWON YSGOL BRYNREFAIL

Ysgol Brynrefail, Nos lau, Mawrth 16 am 7.30pm
Noson yng nghwmni



John Ogwen a
Maureen Rhys

Pris mynediad £1.00 (50c i
blant a phensiynwyr)
Darperir paned a lluniaeth
ysgafn

CYMDEITHAS HANES BRO ECO'R WYDDFA

Cyfarfod Chwefror 15, 1989
7.15 Oriel Eryri, Llanberis

Sgwrs gan Geraint James MA
ar y testun 'William Jones'

Dewch yn llw — aelodau hen a newydd
Manylion pellach gan yr ysgrifennydd,
Maurice Jones, Meillionen, Cwm y glo
Ffôn Llanberis 870466

BETHEL

Gohebydd: Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwig 670726)

DIOLCHIAU: Dymuna Mr a Mrs Anreirin Jones, Caernarfon (Glan Gors gynt), ddiolch o galon i bawb am yr anrhegion, cardiau a dymuniadau da ar achlysur eu priodas.

PLAID CYMRU: Mae'r Gangen leol wedi dechrau'r flwyddyn yn weithgar iawn gan drefnu dau achlysur llwyddiannus iawn.

Nos Wener, Ionwr 6ed trefnwyd noson yng nghwmni Steve Eaves a'i driawd yng Nglan Gwna, Caeathro. Daeth criw mawr ynghyd a chafwyd noson ddiffr iawn.

Nos Fercher, Ionawr 18fed roedd y gangen wedi trefnu noson yng nghwmni Clychau'r Grug a Band Ieuenticid Llanrug, gyda'r elw yn mynd i gronfa'r neuadd. Siomedig iawn oedd y nifer ddaeth i'r Neuadd ond cafwyd perfformiadau gwych gan y Côr a'r Band.

CYFLWYNO BEIBL: Yng Ngwasanaeth y Plant fore Sul, Rhagfyr 18fed yn y Cysegr cyflwynwyd rhodd o feibl newydd, clawr lledr, gan yr Ysgol Sul i Mr Goronwy Jones i ddathlu deugain mlynedd o wasanaeth i'r Ysgol Sul yn y Cysegr.

CLWB Y MAMAU: Nos Fercher, Rhagfyr 22ain, cafwyd Parti Nadolig ardderchog yn Glan Gwna, Caeathro. Ar y noson, tynwyd y raffl Nadolig, a'r enillwyr oedd:

Twrci (rhoddedig gan aelodau'r Clwb): Babs, Trefin, Bethel; Hamper Bwyd (rhoddedig gan Siop Treflyn): Lona Jones, 6 Stâd Eryri, Bethel; Potel chwisi (rhoddedig gan Mr a Mrs K Johnson, Y Bedol): Helen Owen, 18 Garnon Street, Caernarfon; Gwerth £5 o olew (rhoddedig gan Garej Minffordd): Sandra Jones, Ty Gwyn, Saron, Bethel; Potel o win (rhoddedig gan Mr Gwyndaf Williams, Siop Sglodion): Morfydd, 28 y Ddol, Bethel.

Nos Wener, Tachwedd 25ain aeth rhai o aelodau'r Clwb i Ysgol Treborth i drefnu Disgo a Swper i aelodau hyn Clwb Gateway, Arfon, ac fe fwynhawyd y noson yn fawr

iawn gan y rhai dan anfantais, ac fe gafwyd llawer o fwynhad gan aelodau Clwb y Mamau hefyd!

Y GYMDEITHAS: Nos Fawrth, Ionawr 2il recordiwyd Talwrn y Beirdd rhwng tîm Llanrug a tîm Tregarth yn festri Cysegr. Cafwyd noson ddiffr a hwyliog iawn yng nghwmni'r ddau dîm, Gerallt Lloyd Owen a Dic Jones.

CLWB Y RHOS: Mr O R Parry, Llanrug oedd yn gyfrifol am y noson yn yr ysgol nos Lun, Ionawr 9fed. Roedd wedi trefnu i Mr Norman Davies, y Bontnewydd ddod i sgwrsio â'r aelodau. Cafwyd sgwrs ddiffr iawn ganddo am ei deimladau pan yn alltud yn Lloegr am flynyddoedd. Diolchwyd i Mr Davies ar ran y Clwb gan Mr Gwynfor Ellis, Rhoslan.

MERCHED Y WAWR: Nos Fercher, Ionawr 11eg yn yr ysgol, cafwyd noson ddiffr iawn gyda Miss E Vaughan Davies, Caernarfon yn trefnu blodau. Diolchwyd i Miss Davies gan Mrs Mair Jones, Glan Gors. Enillwyd y raffl gan Mrs M G Williams. Cafwyd raffl arall hefyd gyda Mrs Meinir Roberts; Mrs Mary Williams, Awelon; Mrs Anne Elis a Mrs Nora Parry yn ennill blodau a roddwyd yn rhodd gan Miss Davies. Mrs Eirlys Sharpe a Mrs Eryl Roberts oedd y gwest-wragedd.

EIRLYS DAVIES

Dydd Gwener, Rhagfyr 30 bu farw Eirlys Davies yn ei chartref, Gwyndy, 131 Longedge Lane, Wingerworth, Chesterfield, yn 56 mlwydd oed. Merch i Mary Williams a'r diweddar William Williams (Wil Llan), 31 Bro Rhos, Bethel oedd Eirlys, a chwaer i Gwenno. Ar ôl dilyn cwrs hyfforddiant athrawes yng Ngholeg y Santes Fair, Bangor, cafodd swydd yn Aston, Birmingham, lle cyfarfu â'i gwr, Gwyn Davies, mab i Capten a Mrs R O Davies, Nefyn. Tua pum mlynedd ar hugain yn ôl symudodd y teulu i fyw i Wingerworth, pentref ger Chesterfield, lle ganwyd iddynt ddwy ferch, Ceri a

CYFLWYNO'R BEIBL



Sian. Ar ôl gadael ysgol dewisodd y ddwy ferch ddod i Gymru, gyda Ceri yn dilyn cwrs gradd yng Ngholeg Caerdydd a Sian yn dilyn cwrs gradd yng Ngholeg Prifysgol Aberystwyth. Tan y Pasg diwethaf, roedd Eirlys yn athrawes yn adran y babanod yn yr ysgol gynradd leol a oedd o fewn tafliad carreg i'w chartref. Roedd hi'n weithgar ac yn uchel ei pharch yn y gymdogaeth leol. Am fisoedd cyn ei marw gofaldwyd yn dyner iawn amdani gan Ceri a Sian a roddodd heibio pob uchelgais yrfaol er mwyn gofalu am eu mam. Bu'r angladd yn yr

eglwys leol yn Wingerworth ar ddydd Gwener, Ionawr 6. Derbynnir rhoddion er cof am Eirlys i'r 'hospice' lleol, lle y treuliodd Eirlys ychydig wythnosau yn ystod ei gwaelodd.

GWLEDD GERDD: Cofluch am y cyngerdd a gynhelir yn Ysgol Brynrefall, nos Wener, Chwefror 10fed am 7.30. Ymdrech yw'r noson gan gyfeillion Gareth "o Lanrug", I godi arian at Ymchwil yr Arennau yn yr uned ym Mangor. Tocynnau £2 ar gael yn rhai o'r siopau lleol. Os am wledd peidiwch â methu'r cyngerdd.

BEIBL WILLIAM MORGAN Y CEFNDIR

Efallai na wyr llawer o ddarllenwyr yr Eco fod llyfryn newydd, dwyieithog wedi ei gyhoeddi gan Ranbarth Gogledd Cymru o'r WEA, dan y teitl 'Beibl William Morgan 1588-1988'.

Ceir cyfraniadau gan yr Athro Glanmor Williams, Mr T M Bassett a'r Prifardd James Nicholas. Mae'r Athro Glanmor Williams yn rhoi i ni gefndir William Morgan, hanes ei fywyd, digon helbulus yn aml, y gorchwyl o gyfieithu a'r dylanwadau fu arno. Cawn hefyd ddyfyniadau o ymateb llawer o gyfoedion William Morgan i'r cyfieithiad, yn feirdd ac ysgrifenyddwyr rhyddiaith enwog.

Mae Mr T M Bassett, ar y llaw arall, dan y teitl 'Y Beibl ar yr

Aelwyd' yn darlunio effaith cael y beibl yn Gymraeg ar werin Cymru, gan ein hatgoffa ar yr un pryd nad 'gwinllan werdd' na 'gwlad y menyw gwynion' oedd Cymru i gyd yn y gorffennol.

Yn ogystal â'r ddau gyfraniad gwerthfawr yma, cawn gywydd cofiadwy iawn gan y Prifardd James Nicholas, cywydd a gyfansoddwyd yn arbennig i ddathlu'r cyfieithiad newydd, ac sydd wedi ei gyflwyno i'r Parch Owen Evans a'i gyd-weithwyr. Cyfieithwyd y cywydd i'r Saesneg gan Anthony Conran.

Pris y llyfryn yw £2.25, gyda chludiant yn ychwanegol. Mae ar gael o Swyddfa'r WEA, 33 Ffordd y Coleg, Bangor.

GWILYM H. WILLIAMS

**BRYN DAIRY
2 BRYNHYFRYD**

BETHEL

Ffôn

Port Dinorwig 670786



Llefrith
Llaeth Porfa
Llaeth heb Hufen
Wyau, Tatws
Diodydd
Ffrwythau

TAC SIS BETHEL

UNRHYW AMSER - UNRHYW BELLTER

Ffôn: (93) 670555

Am wledd flasu
dewch at
Gwyndaf a Ceris
Williams

**SIOP
SGLODION
BETHEL
CHIP SHOP**

Archebwch
dros y ffôn!
Portdinorwig 670963
Cartref 670170

Dyddiadur y Mis

CHWEFROR

1. **Mercher:** LLANRUG: Capel Mawr. Y Gymdeithas Lenyddol. Sgwrs gan Arthur Roberts, Caergeiliog.

2. **Iau:** UNDEB Y MAMAU CWMYGLO yn Hafan Elan, Llanrug.

3. **Gwener:** CWMYGLO: Gyrfa Chwist yn y Ganolfan, 7.15;

DEINIOLLEN: Bingo yn Ystafell y Seindorf, 8.00;

LLANBERIS A'R ARDAL: Clwb Eryri — Gwesty Gwynedd;

LLANBERIS: Te yr Henoed.

6. **Llun:** LLANBERIS: Clinig Dynion Holliach 6-8 o'r gloch;

DEINIOLLEN: Sefydliad y Merched;

CYMDEITHAS WYDDONOL GWYNEDD: Sgwrs gan Llew Williams, Bangor.

7. **Mawrth:** PENISARWAUN: Yr Urdd — Gwneud crempog gyda Mrs Janice Jones;

DEINIOLLEN: Y Seindorf, Cyfarfod Cyhoeddus yn Ystafell y Seindorf, 7.00.

8. **Mercher:** WAUNFAWR: Pwyllgor yr Urdd yn y Ganolfan, 7.00;

LLANRUG: Plaid Cymru, anerchiad gan yr Athro Bedwyr Lewis Jones yn yr Ysgol Gynradd, 7.30; LLANBERIS: Clwb Garddio yng Ngwesty Gwynedd, 7.30.

10. **Gwener:** DEINIOLLEN: Bingo yn Ystafell y Seindorf, 8.00.

13. **Llun:** WAUNFAWR: y Gymdeiths Lenyddol, Darlith gan Hywel Parry, Groeslon, 7.30;

DEINIOLLEN: Cyfarfod Cyngor Eglwys yn Ebeneser.

14. **Mawrth:** PENISARWAUN: Yr Urdd, Cymorth Cyntaf gyda Griff Roberts, Llanrug, 6.30.

15. **Mercher:** LLANRUG: Capel Mawr — y Gymdeithas Lenyddol. Cwis gan Mary Vaughan Jones, Waunfawr.

17. **Gwener:** DEINIOLLEN, Bingo yn Ystafell y Seindorf, 8.00;

LLANBERIS: Te yr Henoed.

20. **Llun:** BRYNREFAIL: Sefydliad y Merched.

21. **Mawrth:** PENISARWAUN: Yr Urdd, noson dan ofal Len Jones.

22. **Mercher:** CWMYGLO: Gyrfa Chwist yn y Ganolfan, 7.15.

24. **Gwener:** DEINIOLLEN, Bingo yn Ystafell y Seindorf, 8.00.

27. **Llun:** WAUNFAWR: Cymdeithas Lenyddol, 7.30, 'Perori, Parablu, Paned' noson i gloi'r tymor.

28. **Mawrth:** PENISARWAUN: Yr Urdd, Gwaith Llaw gyda Mrs Pat Jones, Brynrefail.

MAWRTH

1. **Mercher:** WAUNFAWR: Cyngerdd yn y Ganolfan;

LLANRUG A'R ARDAL: Dathlu Gwyl Ddewi yng Nglangwna,

7.30 gyda Geraint Lovgreen a'r Enw Da.

**WELDIO OFFER FFERM
A PHEIRIANNAU
DIWYDIANNOL
GWNEUD GIATIAU,
FFENSYS AC ATI
AR GYFER Y CARTREF**

**ATGYWEIRIO TAI
GWAIR**

E. PUGH

**WELDING &
FABRICATING
32 GLANFFYNNON
LLANRUG**

Ffôn: Caernarfon 5394

W.H. JONES

TRYDANWR

**Green Bank
Stryd Fawr
LLANBERIS**

FFÔN:

LLANBERIS 871470

Contractau

Weirio Tai

**Cawodydd Trydan
ac ati**

**CRIB
COCH**

Y Sgwâr, Llanrug

**Ffôn: Caernarfon
76772**

**TRIN GWALLT I
BAWB O'R TEULU
GAN JEN**

**Ffoniwch neu galwch
i drefnu amser**

Am wasanaeth fframio
cyflawn — LLUNIAU
TYSTYSGRIFAU,
TAPESTRI:-

ELWYN PRITCHARD

Fframiwr Lluniau/


Telynnau Gwynedd

Parc Padarn

LLANBERIS

**870922 neu Bangor 351427
cesglir a danfonir i'ch
cartref os dymunwch**

BILL ac EILEEN GRIFFITHS



**Antiques
Ivy Cottage
BETHEL**

**Ffôn:
Y FELINHELI 670556**

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

**Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol**

CABS LLANRUG



C'FON 5951

**Prisiau cystadleuol.
Gwaith contract
pell ac agos**

Gwasanaeth Llogi Cerbydau

**SEGONTIUM
CAR . VANHIRE**

**Cerbydau Pickup, Luton Cargo
a Bysus Mini**

Hefyd Gwasanaeth Glanhau Ceir

**MODURDY LLEIOD,
CAERNARFON Ffôn: 2013**

**Bydd GWRANDAWIADAU ar gyfer
cyfes newydd o'r rhaglen deledu**

**NOSON
LAWEN**

**yn cael eu cynnal mewn nifer o
ganolfannau ar hyd a llêd Cymru yn ystod
MIS MAWRTH a MIS EBRILL.**

**Os oes gennych chi eitem a allai fod yn addas
ar gyfer y rhaglen, boed gân, eitem ddoniol
neu beth bynnag y bo, beth am roi cynnig arni?**

**Anfonwch am fanylion o'r dyddiadau a'r
lleoliadau ynghyd â ffurflen gais at
TELEDU'R TIR GLAS, Maesincla,
Caernarfon Gwynedd. Ffôn: (0286) 5766**

CHWARAEON

APÊL AM GAEL GWYBOD!

Tlodaidd iawn yw'r lluniaeth a gynigir ar y dudalen ôl y mis hwn. Mae'n amlwg nad oes fawr o ddim wedi digwydd dros gyfnod y Nadolig a'r flwyddyn newydd, neu os oes, ni ddaeth y wybodaeth i glyw criw golygyddol yr Eco.

Fe apeliais lawer gwaith am newyddion gan gynrychiolwyr o dimau Pwl, Snwcer, Dartiau a champau eraill, ond, ag eithrio'r 'Sgotwyr, gwael iawn fu'r ymateb ar y cyfan.

Eich papur chi yw'r Eco, a chan mai yn eu horiau hamdden y bydd y tîm yn ceisio ei baratoi, a hynny'n hollol ddi-dal gyda llaw, credaf mai teg fyddai disgwyl i chwi gysylltu â ni os am weld hanes a lluniau eich gweithgareddau yn ymddangos ar ei dudalennau.

Da oedd darganfod fod crysau newydd bellach gan dîm pêl-droed dan 16 oed Llanberis, ond roedd yn rhaid darllen y 'Caernarfon & Denbigh' i wybod hynny! O dudalennau'r papur hwnnw hefyd y daw'r wybodaeth fod tîm y Prince of Wales, Llanberis yn drydydd yn nhabl adran gyntaf y gynghrair pwl, gyda thri thîm arall o'r ardal yn yr un adran. Dolbadarn B sydd ar gopa'r ail adran.

Gleision Llanrug sy'n ail yn nhabl Snwcer yr adran gyntaf gyda Bethel yn chweched yn yr ail adran. Mae tîm merched Penbont, Llanrug ar frig tabl dartiau Caernarfon a'r Cylch a dau dîm o Fryngwna, Caethro sydd ar frig tabl y dynion.

Does dim amheuaeth felly nad oes digon yn mynd ymlaen yn yr ardal, gyda channocdd o ddarlenn-

wyr yr Eco yn cystadlu yn eu gwahanol gynghreiriau pob wythnos. Rhedeg gyda Clwb Eryri sy'n dwyn bryd rhai eraill tra fod Judo, Codi Pwysau, reidio merlod a nifer o ddiddordebau eraill yr un mor boblogaidd.

Apeliaf yn daer felly am i bob clwb ym mro'r Eco benodi rhywun i gysylltu'n fisol â'r golygydd chwaraeon er mwyn cael gwybod y canlyniadau a threfnu fod tynnwyr lluniau ar gael ar achlysuron arbennig.

Mae rhedeg, ac yn enwedig gweithgareddau Clwb Rhedwyr Eryri, fel y crybwyllwyd eisoes yn boblogaidd iawn yn yr ardal ac fe ddaeth dros 200 ohonynt ynghyd at Westy'r Victoria yn Llanberis ychydig cyn y Nadolig i gychwyn y râs o gwmpas y llyn. Tybed faint fedrwyd chi eu hadnabod yn y llun isod.

PÊL-DROED CYNGHRAIR GWYNEDD

Rhagfyr 31ain

Rhydymwyn 2 Llanrug 2 (Cwpan Gogledd Cymru)
Llanberis 0 Caergybi 0

Ionawr 7fed

Llanrug 2 Rhydymwyn 3 (ail chwarae)
Caergybi 1 Llanberis 3 (ail chwarae)

Ionawr 14eg

Llanrug 6 Harlech 2

Ni fu gemau y Sadwrn diwethaf, sef yr 21ain o Ionawr ac felly fe erys Llanrug yn 6ed yn y tabl gyda 17 pwynt ac ôl 17 gêm, a Llanberis yn wythfed gyda 16 pwynt ar ôl 11 gêm.

CYNGHRAIR SAIN

Rhagfyr 31ain

Ail dîm Llanrug 8 Harlech 1

Ionawr 7fed

Ail dîm Llanberis 3 Bangor 1 (Cwpan Wil Evans)
Llanbodig 5 Deiniolen 2

Ionawr 14eg

Pwllheli 2 Ail dîm Llanrug 2
Deiniolen 3 Mountain Rangers 2

Ionawr 21ain

Ail dîm Llanberis 4 Bro Lleu 1 (Cwpan Alves)
Bangor 1 Deiniolen 2 (Cwpan Moorings)

Mae ail dîm Llanrug ymhell ar y blaen ar gopa'r tabl, gyda 30 o bwyntiau ar ôl 16 gêm. Degfed yw ail dîm Llanberis, gyda 9 pwynt ar ôl 12 gêm, a Deiniolen yn olaf ond un, gydag 8 pwynt ar ôl 16 gêm.

PÊL-DROED YSGOL BRYNREFAIL

Roedd Aled Griffiths o Fethel, Cai Williams o Lanberis a Kelvin Houston o Frynrefail yn aelodau o dîm dan 15 oed Ysgolion Arfon fu'n fuddugol, o 2 gôl i ddim, yn erbyn Sir Fôn yn Llangefni ar Ionawr 5ed.

I dîm dan 13eg oed y Sir y mae Gavin Allen (Deiniolen), Aled Roberts (Llanrug), Simon Murphy (Ceunant) a Raphael Ginsberg (Bethel) yn chwarae, ac ar y 24ain o Ionawr, tîm Ysgolion Wrecsam fydd eu gwrthwynebwyr. Deallwn fod siawns y chwarae'r y gêm ar y Cae Râs os bydd cyflwr gweddol arno ar ôl yr holl law. Mae'r tîm eisoes wedi gwneud yn hynod o dda yn cyrraedd y gêm yma, sef eu pumed yn y gystadleuaeth, does ond y goreuon ar ôl bellach.

PYSGOTA gan H P Hughes

Wedi i'r tymor orffen ar y 17eg o Hydref, fe gafodd y pysgod lonydd i ganolbwyntio ar y gwaith o ofalu y bydd cenhedlaeth arall o'u bath yn llenwi'r dyfroedd, a phrysur iawn yr oeddynt hefyd, gyda chladdiadau dirif, nid yn unig yn yr afonydd mwyaf sef y Seiont, Gwyrfaï a'r Llyfnwy, ond hefyd yn yr is afonydd sydd yn rhedeg iddynt, rhai fel Caledffrwd a'r Hwch. Mae'n argoeli'n dda am y dyfodol.

Yn nechrau Rhagfyr hefyd fe welwyd y pedwar caniwr o Fanceinion, a gafwyd yn euog gan Ynadon Caernarfon o amharu ar bysgod yn claddu yn y Seiont, yn apelio yn erbyn y ddedfryd yn Llys y Goron, Caer. Aflwyddiannus oeddynt, gyda'r Bamwr yn cydfynd â'r penderfyniad. Mae hyn yn holl bwysig i'r tîrfeddianwyr a'r pysgotwyr.

Ychydig cyn y Nadolig fe gynhaliwyd pwyllgor blynyddol y Gymdeithas yn yr 'Institute', Caernarfon. Ynddo fe basiwyd nifer o reolau a fydd yn holl bwysig er mwyn rhoi mwy o warchodaeth i'r pysg; rheolau fel rhoi gwaharddiad ar ddefnyddio cynrhon ar yr afonydd, ag eithrio wrth gwrs, yn ystod oriau'r nos pan y caiff ei ddefnyddio gyda phluen.

Yn anffodus, gan fod llawer o waith prynu i'w wneud fe fydd yn rhaid codi pris y tocyn i £40 (oedolyn) a £10 (plentyn, yn cynnwys 16eg oed. Os yw'r plentyn yn ddisgybl ysgol £10 fydd y gôst

hyd ei 18fed pen-blwydd.)

Mae llawer wedi sylwi rwy'n siwr ar y gwaith o ddacluso sydd yn mynd ymlaen yng Nghrawia a Phont Rug, a hefyd ar lannau'r dyfroedd. Gobeithio y caiff y gwaith ei dderbyn yn ffafriol gan y gymuned, oherwydd yn ein tyb ni fel pysgotwyr, mae'n helpu i warchod yr amgylchfyd a harddu'r ardal.

Gyda'r tocyn y tymor yma, caiff pob aelod llawn lyfryn sydd wedi ei baratoi gyda help a charedgirydd y canlynol: Norman Clos-Parry, Treffynnon a'i erthygl ddifyr; Awen ac Arwel Roberts, Diserth am gyfieithu y rheolau, ac yn enwedig Sion Llwyd sydd, o dan gyfarwyddyd ei athro arlunio yn ysgol Brynrefail, Alan Ginsberg, wedi cynllunio clawr y lyfryn a hwnnw, yng ngeiriau'r argraffwr, yn ddyluniad ardderchog.

Wrth gasglu'r darluniau ac ati at ei gilydd, gwelsom fod diddordeb mawr yn yr ardal a buaswn yn ddiolchgar dros ben am gael gweld unrhyw ddarlun neu hen ysgrif sydd yn ymwneud â physgota yn lleol, yn enwedig pysgota'r torgoch; hefyd y cychod arbennig a ddefnyddiwyd yn y ganrif ddiwethaf.

Cynhelir Bwffe Blynyddol y gymdeithas yng Ngwersyll Glan Gwna, Caethro ar Sadwrn, 11fed Chwefror. Os oes unrhyw un ac awydd am noson fendigedig, cysylltwch ac unrhyw un o aelodau'r Pwyllgor.

YSGOL BRYNREFAIL 1954

Fe dynnwyd y ddau lun isod yn yr un fan ac ar yr un diwrnod yng Ngorffennaf 1954. Yr hen ysgol ym Brynrefail yw'r fan, wrth gwrs, ac ar eu cefnau wele'r ysgrifen:

Brynrefail Grammar School Cricket 1st XI

a Brynrefail Grammar School Football 1st XI.

Fel y disgwyliech mewn ysgol weddol fechan y mae cnewllyn o hogia sy'n aelodau o'r ddau dîm. Diolch i Mr Twm Davies am eu benthyg.

